Bargen Ddinesig
BAE ABERTAWE
SWANSEA BAY
City Deal







Portffolio 2025/26

Adroddiad Blynyddol













@SBCityDeal

BDBA@sirgar.gov.uk

bargenddinesigbaeabertawe.cymru

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol 3

Manteision 5

Y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau 7

- Seilwaith Digidol 7
- Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer 13
- Sgiliau a Thalentau 17
- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Chwaraeon ac Iechyd 23
- Pentre Awel 26
- Ardal Forol Doc Penfro (AFDP) 32
- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel 36
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau 40
- Yr Egin 47

Diweddariad Ariannol 50

Proffil Rhagolwg Buddsoddi Blynyddol 51

Ymgysylltu â Busnes 52

Marchnata a Chyfathrebu 55

Digwyddiadau 60

Sicrwydd ac Archwilio 61

Y Portffolio - Risgiau a Phroblemau 62

Gwersi a Ddysgwyd 64

I ddarganfod mwy a chwrdd â'r tîm 65



Crynodeb Gweithredol

Croeso i Adroddiad Blynyddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2025/26.


Wrth i'r Fargen Ddinesig gyrraedd hanner ffordd yn ei chynllun cyflawni 15 mlynedd uchelgeisiol i drawsnewid de-orllewin Cymru, mae wedi bod yn flwyddyn nodedig gyda graddfa ac effaith y cynnydd yn dod yn fwyfwy amlwg. Gyda phrosiectau adeiladu mawr wedi'u cwblhau ac yn weithredol, mwy o gyfleusterau yn agor, a miloedd o gyfleoedd sgiliau wedi'u darparu, mae'r rhanbarth yn gweld manteision pendant o'r buddsoddiad rhanbarthol gyda tharged gwreiddiol o **£1.3 biliwn** ond a amcangyfrifir bellach yn **£1.4 biliwn.**

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn fuddsoddiad unwaith mewn cenhedlaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, y sector cyhoeddus, a'r sector preifat ar draws Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

Yr uchelgais yw darparu buddion allweddol i'r rhanbarth gan gynnwys:

- Creu dros **9,000** o swyddi mewn meysydd gan gynnwys ynni, gweithgynhyrchu, digidol, iechyd a llesiant.
- Cyfrannu **£1.8-2.4 biliwn** o effaith economaidd.
- Helpu **14,000** o bobl i wella eu sgiliau drwy **2,200** o gyfleoedd hyfforddi a thros **3,000** o brentisiaethau newydd.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu'r cynnydd hyd yma, gan gynnwys gwybodaeth, gweithgareddau a chyflawniadau allweddol dros y 12 mis diwethaf.



Prif randdeiliaid Bargen Ddinesig Bae Abertawe yw:

Cyngor Abertawe Swansea Council
Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
Cyngor Castell-nedd Port Talbot Neath Port Talbot Council
Cyngor Sir Penfro Pembrokeshire County Council
Llywodraeth y DU Cymru UK Government Wales
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Swansea University Prifysgol Abertawe
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David
GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board
GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Swansea Bay University Health Board

Mae'r prosiectau a'r rhaglenni o fewn Portffolio'r Fargen Ddinesig yn cyd-fynd â thair thema:

Cyflymu'r Economi

£430m
Buddsoddiad

£1.08bn
Gwerth Gros ychwanegol o

1,708
o Swyddi Newydd

Creu'r lle, y sgiliau a'r cysylltedd i yrru'r economi ranbarthol ymlaen i greu cyfleoedd newydd i'n busnesau a'n cymunedau ffynnu.

Gwyddor bywyd a llesiant

£354m
Buddsoddiad

£617m
Gwerth Gros ychwanegol o

2,973
o Swyddi Newydd

Darparu datblygiadau a fydd yn cyfuno cyfleusterau arloesi, ymchwil a dysgu arloesol â busnesau newydd o fewn meysydd gwyddorau bywyd, iechyd, llesiant a chwaraeon.

Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar

£674m
Buddsoddiad

£687m
Gwerth Gros ychwanegol o

5,005
o Swyddi Newydd

Rhoi'r rhanbarth ar flaen y gad o ran arloesi ym maes ynni a gweithgynhyrchu fel rhan o'r ymgyrch tuag at economi carbon isel a chryfhau'r sylfaen weithgynhyrchu bresennol.

Croeso i Adroddiad Blynyddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2025/26. Fel Cadeirydd y Cyd-bwyllgor, rwy'n falch o fwrw golwg yn ôl ar flwyddyn nodedig i'r Fargen Ddinesig wrth i ni symud i ail hanner ein Portffolio 15 mlynedd uchelgeisiol i drawsnewid economi de-orllewin Cymru.

Eleni gwelwyd trobwynt o ran y gwaith cyflawni. Mae prosiectau seilwaith mawr wedi'u cwblhau a bellach yn weithredol, mae cyfleusterau newydd yn agor ledled y rhanbarth, ac mae miloedd o bobl wedi cael mynediad at sgiliau a chyfleoedd hyfforddi. Mae'r canlyniadau gweladwy, diriaethol hyn yn dangos cryfder ein dull partneriaeth ac effaith wirioneddol buddsoddiad rhanbarthol a amcangyfrifir bellach yn £1.4 biliwn.

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ysgogi twf economaidd cynaliadwy ar draws Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Mae ein huchelgeisiau cyffredin - i greu mwy na 9,000 o swyddi, cynhyrchu hyd at £2.4 biliwn o effaith economaidd, a darparu sgiliau lefel uwch i 14,000 o bobl —yn parhau i fod ar y trywydd iawn. Mae'r cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf yn adlewyrchu momentwm cryf, hyder cynyddol yn y sector preifat, a thystiolaeth glir o greu swyddi, datblygu sgiliau a thwf busnes.

Er bod yr amgylchedd economaidd ehangach yn parhau i gyflwyno heriau, gan gynnwys pwysau costau ac ansicrwydd byd-eang, mae ein partneriaid wedi dangos gwytnwch, ymrwymiad a'r gallu i addasu. Mae llywodraethu cryf, rheoli risg yn gadarn a chydweithrediad agos ar draws y bartneriaeth wedi sicrhau bod y gwaith cyflawni yn mynd rhagddo fel y dylai.

Wrth edrych ymlaen, mae ein ffocws yn parhau ar fanteisio i'r eithaf ar effaith hirdymor y Fargen Ddinesig: cryfhau'r economi ranbarthol, cefnogi ein cymunedau, a sicrhau bod de-orllewin Cymru yn cael ei gydnabod fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer buddsoddi, arloesi a thwf cynaliadwy.

Hoffwn ddiolch i'r holl bartneriaid, rhanddeiliaid a thimau cyflawni am eu hymroddiad a'u hymrwymiad parhaus i'r weledigaeth gyffredin hon. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n adeiladu dyfodol cryfach, a mwy ffyniannus i'n rhanbarth

Y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe a Chadeirydd Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Manteision

Roedd y cynnydd wedi parhau drwy 2025/26 tuag at darged buddion y Fargen Ddinesig, gyda'r holl brosiectau a rhaglenni yn dangos perfformiad cyflawni cryf.
Mae'r prif lwyddiannau hyd yn hyn yn cynnwys:

£719.36m o gyfanswm buddsoddiad wedi'i sicrhau gan gynnwys buddsoddiad **o £133.43m** yn 2025/26.

£233.63m o fuddsoddiad wedi'i sicrhau gan y sector preifat - **cynnydd o'r £132.78m** a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol, sy'n dangos hyder cadarn a chynyddol yn y farchnad.

Creu o leiaf **1,087** o swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn, gan gefnogi twf rhanbarthol economaidd.

Dros 2,470 o gyfleoedd prentisiaeth Cyfwerth ag Amser Llawn wedi'u creu neu eu cynnal - **i fyny yn sylweddol o 230** yn y flwyddyn flaenorol, sy'n adlewyrchu cynnydd sylweddol mewn datblygu sgiliau.

102,576m² o arwynebedd llawr wedi'i gwblhau, **i fyny o 79,500m²** yn y flwyddyn flaenorol, gan alluogi twf busnes a datblygu seilwaith.

Cyflawnwyd **27,533** o ymyriadau o ran sgiliau ychwanegol, hefyd crëwyd **45** o fframweithiau hyd yn hyn ar gyfer cyrsiau newydd drwy'r rhaglen, gan gryfhau'r gweithlu rhanbarthol.

Derbyniwyd **£18.07m** o gyllid gan y sector preifat hyd yma ar gyfer y Rhaglen Sgiliau a Thalentau, yn erbyn targed diwygiedig **o £30.96m** target. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol o'r targed gwreiddiol o **£4m** , gan ragori ar y disgwyliadau'n sylweddol a chryfhau effaith y rhaglen.

£36.4m o gyllid y sector preifat a ysgogwyd drwy'r rhaglen Seilwaith Digidol a adroddwyd yn 2024/25, gan gyflymu cysylltedd ac arloesedd digidol.

Darparwyd **2,897** o'r **10,300** o Gartrefi fel Gorsafoedd Pŵer, gan ysgogi buddsoddiad o **£144.8m**, gyda **£38m** arall wedi'i sicrhau i gefnogi'r gwaith parhaus. **I fyny o 1,079** o gartrefi yn y flwyddyn flaenorol.

Dyfarnwyd **dros 260** o gontractau i gwmnïau yng Nghymru, gwerth mwy na **£143.3m, gan gefnogi cadwyni cyflenwi lleol a gwytnwch economaidd.**

8 prosiect wedi'u cwblhau neu'n weithredol, ac sydd bellach yn cael eu monitro, gyda gwerth cyfunol o **£277m, gan gyflawni canlyniadau diriaethol ledled y rhanbarth.**

19 o brosiectau'n cael eu hadeiladu neu'n cael eu cyflawni, sy'n cynrychioli **£939m o fuddsoddiad sydd ar y gweill.**

12 prosiect yn y broses cyn cyflawni, gyda gwerth rhagamcanedig o **£242m, gan sicrhau piblinell gref yn y dyfodol.**





Mae'n fraint cyflwyno Adroddiad Blynyddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe eleni, sy'n nodi fy mlwyddyn gyntaf fel Uwch-berchennog Cyfrifol a chyfnod pontio pwysig i'r Portffolio. Mae ymgymryd â'r rôl hon hanner ffordd drwy'r gwaith cyflawni wedi cynnig cyfle gwerthfawr i adolygu cynnydd, cryfhau goruchwyliaeth, a sicrhau bod y Portffolio mewn sefyllfa dda i gyflawni ei uchelgeisiau hirdymor.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn o atgyfnerthu a chyflymu. Ar draws y Portffolio, mae prosiectau wedi parhau i symud o'r cam datblygu i'r cam cyflawni ac, mewn llawer o achosion, maent bellach yn weithredol. Mae aeddfedrwydd cynyddol y portffolio yn amlwg wrth weld graddfa a chymhlethdod y gweithgarwch sydd ar y gweill, ochr yn ochr â hyder cynyddol ar draws timau prosiect, partneriaid a rhanddeiliaid.

Un o'r prif flaenoriaethau yn ystod y flwyddyn oedd atgyfnerthu llywodraethu cryf, rheoli perfformiad, a sicrhau cyflawni. Mae trefniadau monitro cadarn, rheoli risg ac adrodd ar waith ar draws yr holl raglenni a phrosiectau, gan gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol a galluogi ymatebion amserol i heriau sy'n dod i'r amlwg. Mewn amgylchedd economaidd cymhleth ac esblygol, mae'r ddisgyblaeth hon yn hanfodol i gynnal momentwm a diogelu gwerth hirdymor.

Rydyn ni hefyd wedi gweithio i gryfhau aliniad ar draws y Portffolio - gan sicrhau bod prosiectau unigol yn cyfrannu'n gydlynol at flaenoriaethau rhanbarthol ehangach, yn cefnogi ei gilydd lle bo modd, ac yn manteisio i'r eithaf ar effaith ar y cyd. Mae hyn wedi cynnwys cydweithio'n agosach â phartneriaid cyflawni, ymgysylltu'n barhaus â diwydiant, a ffocws parhaus ar ganlyniadau sy'n darparu budd gwirioneddol i gymunedau ledled de-orllewin Cymru.

Er bod pwysau'n parhau, gan gynnwys costau cynyddol, cyfyngiadau ar adnoddau ac ansicrwydd economaidd ehangach, mae'r gwytnwch a ddangosir gan bartneriaid cyflawni wedi bod yn nodwedd ddiffiniol o'r flwyddyn. Mae'r gallu i addasu a datrys problemau ar lefel prosiect wedi helpu i gynnal momentwm a sicrhau bod y gwaith cyflawni yn parhau ar y trywydd iawn.

Wrth edrych ymlaen, bydd y ffocws ar ysgogi cyflawniad trwy gam nesaf y Portffolio – gan sicrhau bod buddsoddiadau'n cael eu hadlewyrchu mewn canlyniadau mesuradwy, bod y buddion yn cael eu gwireddu ar raddfa fawr, a bod y Portffolio yn parhau i ddarparu gwerth parhaol i'r rhanbarth.

Richard Brown
Prif Weithredwr Cynorthwyol
a Chyfarwyddwr Lle Cyngor Sir Penfro

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn llwyddo'n arbennig o dda i gyflawni yn erbyn ei blaenoriaethau strategol, gan helpu i gryfhau tirwedd economaidd ac arloesedd y Rhanbarth.

Yn bwysicach oll, dim ond y dechrau yw hwn, gyda'r cam nesaf yn cynnig hyd yn oed mwy o gyfleoedd ar gyfer twf, buddsoddi a gwell cyfleoedd i fusnesau a phobl Cymru.

Adam Price
Gweinidog y Cabinet dros Fenter,
Cysylltedd ac Ynni

Diweddariad ar y Prosiectau

Seilwaith Digidol

Sganiwch os gwelwch yn dda

Drwy gyflawni ei thair ffrwd waith, bydd y rhaglen yn gwella cysylltedd sefydlog a symudol ar draws Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Mae hyn yn cynnwys ysgogi mewnfuddsoddiad mewn cysylltedd ar gyfradd gigabit ar draws parthau twf economaidd y rhanbarth, gan sicrhau nad yw'r rhai sydd â chysylltedd gwael yn cael eu gadael ar ôl, ac ysgogi buddsoddiad mewn 5G ag uwch-dechnoleg ddi-wifr i ysgogi arloesedd mewn sectorau allweddol. **Rhagor o fanylion.**

£177.1m	Buddsoddiad
£25m	Y Fargen Ddinesig
£23.3m	Sector Cyhoeddus
£128.8m	Sector Preifat

Cyflymu'r Economi

Bydd y prosiect rhanbarthol hwn yn gwneud y canlynol:

- Cysylltedd sy'n addas i'r dyfodol ar **148** o safleoedd sector cyhoeddus
- Uwchraddio dros **1,500** o adeiladau i ffeibr llawn
- Defnyddio **120** o byrth LoRaWAN i ysgogi arloesedd
- Darparu Cronfa Arloesi 5G gwerth **£2.5m**
- **£341.7m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

Cyngor Abertawe Swansea Council
Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cyflawniadau dros y 12 mis diwethaf

Ffrwd Waith Cysylltiedig - Rhagor o wybodaeth

- Wedi'i gyflwyno gan BT, cafodd prosiect Adeiladu Seilwaith Ffeibr Llawn Band Eang y Sector Cyhoeddus gwerth £1.9m ei gwblhau'n llwyddiannus. Daeth y prosiect hwn â chysylltedd ffeibr llawn i 69 o safleoedd sector cyhoeddus, gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, parciau gwledig a mannau cyhoeddus ledled y rhanbarth, gan ddiogelu darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus i'r dyfodol a chefnogi agenda trawsnewid digidol partneriaid.
- Sicrhawyd £1,050,000 o gyllid y Gronfa Band Eang Lleol i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiect Adeiladu Seilwaith Ffeibr Llawn Band Eang y Sector Cyhoeddus.
- Cwblhawyd gosod rhwydwaith band eang ffeibr llawn ym Mharc Margam fel rhan o brosiect Adeiladu Seilwaith Ffeibr Llawn Band Eang y Sector Cyhoeddus Mae'r gwaith uwchraddio mawr hwn, sy'n cynrychioli buddsoddiad o oddeutu £150,000, bellach yn galluogi'r parc i gynnal digwyddiadau ar raddfa fawr heb broblemau cysylltedd.
- Wedi'i gyflwyno gan Virgin Media O2, cwblhawyd prosiect Ffeibr Tywyll yn y Dwyrain yn llwyddiannus, gan greu rhwydwaith ffeibr diogel, gwydn a chapasiti uchel sy'n cysylltu 36 o safleoedd sector cyhoeddus drwy 46 o gysylltiadau ar draws Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Llanelli. Gyda chyfanswm buddsoddiad o £1.3m, mae'n sicrhau bod gan bartneriaid sector cyhoeddus y rhanbarth y seilwaith angenrheidiol i gefnogi gwasanaethau digidol modern trwy ddiogelu cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol er mwyn ymdrin â'r galw digidol cynyddol, gwell cydnerthedd yn y rhwydwaith, a chapasiti a galluogi cydweithrediad agosach rhwng partneriaid allweddol.
- Mae gwerth cymdeithasol yn helpu i gau'r rhaniad digidol, gan gefnogi mentrau sy'n darparu mynediad at ddyfeisiau, darparu hyfforddiant sgiliau digidol, a chynnig band eang am ddim ar gyfer mannau cymunedol. Mae pob un ohonynt yn helpu i adeiladu dyfodol digidol cynhwysol lle gall pawb gysylltu, cymryd rhan a ffynnu. **Darllenwch y dudalen Astudiaeth Achos - 'Ffocws ar...' i gael y manylion yn llawn.**
- Llwyddodd ITS i gael y contract Ffeibr Tywyll Sir Gaerfyrddin gwerth £3.5m a dyma fuddsoddiad cyntaf y cwmni yn ne Cymru. Gyda 26 o gylchedau yn cael eu cwblhau ledled y sir erbyn Ch4 2025/26 bydd yn darparu 41 o gysylltiadau ffeibr tywyll ar draws 34 o safleoedd sector cyhoeddus strategol yn Sir Gaerfyrddin, gan gefnogi gwytnwch, capasiti'r rhwydwaith, ac arloesedd mewn addysg, iechyd ac awdurdodau lleol.



Ffrwd waith wledig - Rhagor o wybodaeth

- Dyfarnwyd y Prosiect Mewnlenwi Gwell Band Eang i BT a fydd yn cyflawni hyn mewn partneriaeth ag Openreach. Bydd y prosiect £9.8m a mwy hwn yn dod â band eang ffeibr i fwy na 1,500 o adeiladau anodd eu cyrraedd, ynghyd â 256 o safleoedd ychwanegol ledled y rhanbarth. Mae'n gam sylweddol ymlaen wrth bontio'r rhaniad digidol i gartrefi a busnesau. Mae'r prosiect yn targedu'n benodol adeiladau gyda chyflymder band eang o dan 30Mbps nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr ymyriadau presennol gan y llywodraeth (fel Prosiect Gigabit) neu ran o gynlluniau cyflwyno masnachol. Mae'r gwaith cyflawni ar y gweill, gyda'r tîm wedi'i sefydlu a Chyfran 1 wedi'i chwblhau, gan gysylltu 159 o adeiladau â ffeibr llawn.
- Fel rhan o'r ymrwymiadau gwerth cymdeithasol, dyfarnwyd Cyllid Cynhwysiant Digidol gan BT i Ganolfan Byw'n Dda Sir Gaerfyrddin, Faith in Families yn Abertawe a Chlwb Bechgyn a Merched Castell-nedd. Mae Sir Benfro yn gweithio gyda BT i gyflwyno'r rhaglen Barod am Waith gyda'r adran addysg.

Ffrwd Waith Di-wifr y Genhedlaeth Nesaf - Rhagor o wybodaeth

- Dyfarnwyd Cyllid Arloesi 5G i'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Chwaraeon ac Iechyd i ddarparu rhwydwaith 5G pwrpasol ar draws Prifysgol Abertawe ac mae hyn wedi'i gwblhau, mae tri myfyriwr PhD yn gweithio ar achosion defnydd sy'n defnyddio seilwaith 5G i ysgogi atebion ar draws meysydd iechyd a llesiant.
- Mae VodafoneThree hefyd wedi uwchraddio 5 safle presennol ledled Abertawe o ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect, gan ddod â gwell cysylltedd 5G ar draws canol y ddinas a buddsoddiad o dros £600,000

.



Arall

- Roedd Asesiad o Effaith Buddion 2024/25 y Rhaglen, a gynhaliwyd gan FarrPoint, yn nodi £44.8m o fewnfuddsoddiad mewn cysylltedd digidol ar draws Dinas-ranbarth Bae Abertawe.
- Derbyniodd y Rhaglen sgôr Werdd o ran Asesu Hyder Cyflawni yn yr Adolygiad Gateway diweddaraf, sy'n cadarnhau'r cynnydd da o ran gwella cysylltedd digidol ar draws y rhanbarth.
- Daeth y digwyddiad blynyddol, 'Troedio'r Llwybr i Well Cysylltedd' a gynhaliwyd ym Mharc y Scarlets yn Llanelli, ag arweinwyr y diwydiant, rhanddeiliaid y sector cyhoeddus a phreifat at ei gilydd i edrych ar y datblygiadau, yr heriau a'r cyfleoedd mewn cysylltedd digidol.
- Llofnododd Cyngor Abertawe Gytundebau Mynediad Agored gyda darparwyr seilwaith digidol blaenllaw, Ontix, Cellnex a Freshwave. Mae'r cytundebau hyn yn caniatáu i'r cwmnïau ddefnyddio asedau sy'n eiddo i'r cyngor, fel goleuadau stryd, i ddarparu seilwaith celloedd bach a gwella capasiti'r rhwydwaith symudol yn ystod cyfnodau prysur.
- Cynhyrchwyd fideos Astudiaethau Achos, gan gynnwys Stori Melin Tregwynt, yn pwysleisio effaith gadarnhaol gwell cysylltedd, a fideo ar wahân yn dangos rôl allweddol Hyrwyddwyr Digidol wrth gefnogi'r gwaith o gyflwyno cysylltedd digidol. **Gallwch ei wylio yma.**
- Cymerodd timau Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol ran mewn trafodaethau panel yn ystod Connected Britain 2025 (ExCel Llundain), gan arddangos heriau a chyfleoedd rhanbarthol.



Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2026/27

- Cwblhau'r gwaith o gyflawni Ffeibr Tywyll Sir Gaerfyrddin gan ITS, gan gynnwys ymrwymiadau gwerth cymdeithasol cysylltiedig.
- Cynhyrchu fideos astudiaeth achos ar gyfer prosiect y Sefydliad Cenedlaethol dros Chwaraeon ac Iechyd, Ffeibr Tywyll yn y Dwyrain a Ffeibr Tywyll Sir Gaerfyrddin.
- Cyflawni'r Prosiect Mewnlenwi Gwell Band Eang gan gynnwys ymrwymiadau gwerth cymdeithasol cysylltiedig erbyn 31 Mawrth 2027.
- Cyflwyno pedwar Diwrnod Darganfod Digidol, un ym mhob sir, bydd y digwyddiadau rhyngweithiol hyn yn helpu trigolion a busnesau i fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol a deall eu opsiynau i wella cysylltedd.
- Cwblhau Arfarniad Opsiynau ar gyfer y Rhaglen i benderfynu ar y defnydd gorau o gyllid sydd heb ei ddyrannu i barhau i ysgogi mewnfuddsoddiad a chyflawni amcanion strategol y Rhaglen.
- Ymgysylltu'n barhaus â phartneriaid i archwilio cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag arloesi gyda thechnoleg ddi-wifr uwch a ffocws penodol ar 5G.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i archwilio cyfleoedd a chyllid cysylltiedig gan Lywodraethau Cymru a'r DU i gefnogi'r Rhaglen.

FFOCWS AR...

Darparu Gwerth Cymdeithasol drwy'r Rhaglen Seilwaith Digidol

Trwy'r ymrwymiadau gwerth cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chontractau cyfalaf y Rhaglen Seilwaith Digidol, mae partneriaid cyflawni wedi cefnogi ystod o fentrau sydd wedi'u cynllunio i gau'r rhaniad digidol.

Mae'r rhain yn cynnwys darparu mynediad at ddyfeisiau, darparu hyfforddiant sgiliau digidol, a chynnig band eang am ddim ar gyfer mannau cymunedol. Gyda'i gilydd, mae'r ymyriadau hyn yn helpu i adeiladu dyfodol digidol cynhwysol lle gall pawb gysylltu, cymryd rhan a ffynnu.

Ewch i'r wefan Seilwaith Digidol i ddarllen yr holl straeon gwerth cymdeithasol.

Cefnogi Hybiau Digidol Cymunedol

Ffeibr Tywyll yn y Dwyrain - Virgin Media O2

Darparwyd cysylltiadau band eang am ddim i sawl sefydliad cymunedol ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, gan gynnwys Clwb Bechgyn a Merched Castell-nedd, YMCA Castell-nedd , Banc Bwyd Abertawe, The Sunflower Lounge, Llyfrgell Taibach, Canolfan Gymunedol De Penlan, Mosg Abertawe, Hwb Cymunedol Ffydd Gobaith Cymru a Christchurch.

> Mae cael mynediad dibynadwy i'r rhyngrwyd yn golygu y gall pobl sy'n defnyddio ein canolfan chwilio am swyddi, gwneud taliadau ar-lein a chael cymorth digidol. Mae hefyd yn helpu ein banc bwyd i gynnig mwy o gefnogaeth ar y cyd hefyd.
>
> **Annaliese Gower**
> **Canolfan Gymunedol De Penlan**

Mynd i'r afael ag Allgáu Digidol

Ffeibr Tywyll yn y Dwyrain - Virgin Media O2

Dyfarnwyd £10,000 i Age Cymru o Gronfa Cynhwysiant Digidol i helpu pobl hŷn i ddatblygu sgiliau digidol yn Sir Gaerfyrddin. Defnyddiodd y Tîm Gofal Trwy Gymorth Technoleg a Chysylltwyr Cymunedol yn Sir Benfro y cyllid hwn i gefnogi preswylwyr gyda thechnoleg ddigidol, a oedd yn cynnwys creu'r Ganolfan Byw yn Dda Cymunedol Integredig a fydd yn treialu technoleg SMART addasol i helpu pobl i fyw'n fwy annibynnol gartref.

> Mae ein gwirfoddolwyr digidol wedi gallu cynnig cefnogaeth werthfawr i unigolion sy'n cwmpasu ystod eang o anghenion digidol, gan gynnwys cymorth gyda llechi, nodi ac osgoi sgamiau, lawrlwytho a defnyddio apiau, gosod seinyddion clyfar a siopa ar-lein.
>
> **Peter Mclloy, Age Cymru**



Mynd i'r afael â Thlodi Data

Cronfa Arloesi 5G – Vodafone

Mae 3,000 o gardiau SIM VodafoneThree wedi'u dosbarthu gan Brifysgol Abertawe ar y cyd â'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Chwaraeon ac Iechyd (NISH), Prosiect 5G i gefnogi unigolion a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi data digidol, gan weithio gyda'r Good Things Foundation i gefnogi mynediad at ddyfeisiau hefyd.

> Trwy wella mynediad digidol, rydyn ni'n helpu pobl i arwain bywydau iachach, mwy cysylltiedig.
>
> **Meddai'r Athro Keith Lloyd, o'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Chwaraeon ac Iechyd**

Gwella Iechyd, Llesiant ac Annibyniaeth

Prosiect Mewnlenwi Gwell Band Eang – BT

Dyfarnwyd £15,750 o Gronfa Cynhwysiant Digidol i Ganolfan Byw'n Dda Planed yn Sir Gaerfyrddin, Faith in Families yn Abertawe a Chlwb Bechgyn a Merched Castell-nedd. Mae'r cyllid hwn wedi'i ddefnyddio i ddarparu sgiliau digidol a mynediad at ddyfeisiau. Mae Cyngor Sir Penfro yn gweithio gyda BT i gyflwyno'r rhaglen Workready gyda'u hadran addysg, gan gynnig sesiynau sgiliau digidol i bobl ifanc 18-25 oed yn y sir.

> Bydd y dyfeisiau newydd o fudd i'r holl brosiectau a sefydliadau yn y ganolfan. Byddant yn helpu pobl i ddatblygu hyder a sgiliau digidol, gan agor mynediad at wasanaethau a chyfleoedd hanfodol.
>
> **Iwan Thomas PLANED**

> Mae'r sefydliad yn falch iawn o dderbyn y cyllid a'r cymorth o ran cysylltedd a fydd yn creu cyfleoedd newydd i'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r ganolfan ac yn eu helpu i ddatblygu sgiliau digidol pwysig ar gyfer y dyfodol.
>
> **Aline Valleron, Clwb Bechgyn a Merched Castell-nedd**



Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer

Mae'r prosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno dyluniad effeithlon o ran ynni a thechnolegau adnewyddadwy mewn cartrefi. Ei nod yw mynd i'r afael â thlodi tanwydd, lleihau allyriadau carbon ac ysgogi twf economaidd o fewn y gadwyn gyflenwi technoleg adnewyddadwy ranbarthol. **Rhagor o fanylion.**

Sganiwch os gwelwch yn dda



£518.6m Buddsoddiad
£15m Y Fargen Ddinesig
£127.7m Sector Cyhoeddus
£375.9m Sector Preifat

Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar

Bydd y prosiect rhanbarthol hwn yn:

- **1,804** o swyddi
- **10,300** cartrefi newydd a phresennol wedi'u gosod gyda thechnolegau adnewyddadwy
- **19,000+** tunelli o ostyngiadau CO^2 y flwyddyn
- **£251m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

HAPS Trawsnewid Cartrefi Cymraeg Transforming Welsh Homes
Cyngor Abertawe Swansea Council
Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cyflawniadau dros y 12 mis diwethaf

- **Cronfa Cymhellion Ariannol:** Mae hon yn gronfa gwerth £5.75m sydd wedi'i llunio i gymell Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, awdurdodau lleol a datblygwyr a landlordiaid y sector preifat i osod technoleg adnewyddadwy mewn cartrefi i'w gwneud yn lanach, yn wyrddach ac yn fwy effeithlon. Ar ôl ei lansio yn 2024, dyrannwyd mwyafrif y gronfa i 22 o gynlluniau tai ledled y rhanbarth, gan gefnogi 500 o gartrefi.
- **Cronfa Cadwyn Gyflenwi:** Lansiwyd y gronfa gwerth £7m i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cadwyn gyflenwi ranbarthol gynaliadwy. Er bod sawl Mynegiant o Ddiddordeb wedi'i dderbyn a sawl cais wedi symud ymlaen i'r cam ymgeisio llawn, nid oedd yr un o'r prosiectau yn bodloni'r meini prawf sy'n ofynnol i sicrhau cyllid.
- **Canllawiau Bwrdd Ymgynghorol y Sector Preifat:** Ymgysylltodd tîm y prosiect â Bwrdd Ymgynghorol y Sector Preifat, Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru gan arwain at:
  - Argymhellion i fireinio meini prawf y Gronfa Cadwyn Gyflenwi a chyflwyno galwadau am gyllid sydd wedi'u targedu. Bydd y Gronfa Cadwyn Gyflenwi yn ail-lansio yn gynnar yn 2027.
  - Galwad wedi'i dargedu tuag at ddarparwyr addysg sy'n cyflwyno cyrsiau sy'n gysylltiedig ag ôl-osod, ac sydd am ddatblygu tŷ arddangos mewn lleoliad addysg i wella dysgu a darparu senario ôl-osod go iawn.
- **Cydweithio yn y sector iechyd:** Cynhaliwyd trafodaethau cadarnhaol gyda'r GIG i archwilio sut y gallai unigolion â chyflyrau iechyd anadlol sy'n gysylltiedig ag amodau tai gwael elwa ar ymyriadau a ariennir gan y llywodraeth.
- **Ymgysylltu â darparwyr ynni:** Ymgysylltu'n barhaus â darparwyr ynni amrywiol i ddeall yn well y tariffau sydd ar gael a'r cysylltiad â thechnolegau adnewyddadwy. Rhoddodd Octopus Energy gyflwyniad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol.
- **Ymwybyddiaeth o gyllid Rhwymedigaeth Cwmni Ynni:** Roedd gweithdy gyda phartneriaid y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi archwilio dulliau o ymgysylltu â chleifion cymwys i gael cyllid Rhwymedigaeth Cwmni Ynni. Mae'r cyllid hwn gan y llywodraeth yn cefnogi aelwydydd i leihau costau gwresogi trwy roi mesurau arbed ynni ar waith.







Cyflawniadau dros y 12 mis diwethaf

- **Rhannu gwybodaeth dechnegol:** Digwyddiad ar y cyd ag Ysgol Bensaernïaeth Cymru Prifysgol Caerdydd ym Mharc Margam, a oedd yn canolbwyntio ar fonitro, gwerthuso a'r gwersi a ddysgwyd o gynlluniau tai - Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer. Mynychodd dros 80 o gynrychiolwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r pedwar awdurdod lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan gynnwys, Codi, Beacon, Tai Tarian, Wales and West Housing, Aelwyd, Wellspring ac Ateb.
- **Datblygu Sgiliau:** Roedd y prosiect wedi cefnogi Rewise yn Ysgol Ystalyfera (Castell-nedd Port Talbot), gan gyfrannu at gynllun peilot Renewable Horizons sy'n rhan o raglen Sgiliau a Thalentau Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae'r fenter hon yn targedu dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 a bydd yn ymgysylltu ag 800 o unigolion mewn 40 o ysgolion ledled y rhanbarth. **Rhagor o wybodaeth.**
- **Ymgysylltu a chyfathrebu'n ehangach:** Roedd y cynllun Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer yn cael ei hyrwyddo mewn ystod o ddigwyddiadau, gan gynwys:
  - Digwyddiad blynyddol Cyfrif Cyflymydd Effaith ar sail Lle yn Abertawe i edrych ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth.
  - Cynghrair Caffael Cymreig yn lansio N9 Fframwaith Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy yn Abertawe i alluogi prynu ynni adnewyddadwy.
  - Grŵp Llywio Ynni De Cymru i sicrhau bod cydweithrediad a synergedd, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd rhwng prosiectau ledled y rhanbarth.
  - Haydale yn lansio System Wresogi o dan y llawr yn Rhydaman a oedd wedi'i anelu at Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y rhanbarth i hyrwyddo ac addysgu am y cynhyrchion sydd ar gael.
  - Digwyddiad Innovate UK DEMAT yng Nghasnewydd i gefnogi cynlluniau ôl-osod y rhanbarth.
  - Digwyddiad Hwb Carbon Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd i rannu arferion gorau a chydweithio â sefydliadau tai cymdeithasol.
  - Digwyddiad Ymgysylltu â Thrigolion Cymdeithas Tai Pobl ym Mharc Penrhiw, Rhydaman, i gefnogi'r gwaith o osod technolegau i greu Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer.
  - Sioe Fusnes Cymru, Sioe Adeiladu Cymru, Expo Busnes Cymru a Chynhadledd Economi Werdd 4theRegion, i ddarparu cymorth i gwmnïau newydd a chwmnïau presennol ledled y rhanbarth.



Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2026/27

- Ail-lansio'r Gronfa Gadwyn Gyflenwi gwerth £7m, gan ysgogi'r galw'n rhanbarthol i ddenu gwneuthurwyr, cyflenwyr a gosodwyr i dde-orllewin Cymru, wrth gefnogi busnesau presennol i weithgynhyrchu, hyfforddi a buddsoddi mewn ymateb i anghenion y rhanbarth.
- Datblygu cynnwys hygyrch, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i helpu rhanddeiliaid i ddeall manteision technolegau adnewyddadwy mewn tai newydd ac wrth ôl-osod. Bydd hyn yn cynnwys data diduedd gan Ysgol Bensaernïaeth Cymru Prifysgol Caerdydd.
- Gweithio gyda'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol i sicrhau bod gan y rhanbarth weithlu medrus sy'n gallu gosod a chynnal technolegau adnewyddadwy mewn cartrefi.

FFOCWS AR...

Datblygiad Tai Caegar, Llanelli

Cyflawnwyd datblygiad tai Caegar yn Llanelli gan TAD Builders yn 2025 ar gyfer Codi (a elwid gynt yn Grŵp Tai Pobl), gyda chyllid yn rhannol gan y prosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer. Mae'r prosiect yn cynnwys 20 o gartrefi newydd fforddiadwy, wedi'u hadeiladu gan ddefnyddio dulliau ffrâm bren ac sy'n cynnwys ystod o dechnolegau ynni-effeithlon. Mae'r rhain yn cynnwys paneli solar ffotofoltäig, systemau gwresogi is-goch, silindrau dŵr gwres o'r aer a systemau storio batri, gan gefnogi amgylchedd byw carbon isel, ynni-effeithlon.

Symudodd trigolion i'r cartrefi ym mis Gorffennaf 2025 ac maent wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn ar ansawdd a pherfformiad eu cartrefi newydd.

> Nodau a dyheadau Codi ar gyfer y prosiect hwn oedd darparu cartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel i ddiwallu'r angen am dai yn Llwynhendy, Sir Gaerfyrddin. Rhoddodd y datblygiad hwn gyfle i dreialu technolegau arloesol, gan gynnwys paneli gwresogi rheiddiol, pwmp gwres o'r aer ar gyfer y dŵr poeth, ac integreiddio paneli solar ffotofoltäig gyda system storio batri.
>
> **Elfed Roberts, Pennaeth Cynaliadwyedd ac Arloesi Grŵp Codi**

> Mae byw yn y tŷ hwn yn hollol newydd i mi, mae'r dechnoleg is-goch a'r paneli solar yn ei wneud yn gynaliadwy iawn - rwy'n dwlu ar hyn yn y cartrefi newydd. Bydd costau rhedeg y cartref yn gwneud gwahaniaeth mawr i mi ac rwy'n hapus iawn ei fod yn wyrddach ac yn fwy cynaliadwy.
>
> **Un o drigolion Datblygiad Tai Caegar**

Bydd perfformiad ynni'r datblygiad yn cael ei fonitro a'i werthuso gan Ysgol Bensaernïaeth Cymru Prifysgol Caerdydd. Bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu ar draws y rhanbarth i lywio datblygiadau tai ac arferion gorau yn y dyfodol.



Sgiliau a Thalentau

Gan weithio ar draws y rhanbarth ac mewn partneriaeth â'r sector preifat, darparwyr addysg uwch ac addysg bellach, ysgolion a'r trydydd sector, mae'r rhaglen Sgiliau a Thalentau yn nodi bylchau yn y ddarpariaeth hyfforddi bresennol ac yn cefnogi datblygu cyrsiau a fframweithiau newydd i fynd i'r afael â'r anghenion sgiliau presennol ac yn y dyfodol. **Rhagor o fanylion.**

Sganiwch os gwelwch yn dda



£49.4m	Buddsoddiad
£10m	Y Fargen Ddinesig
£8.5m	Sector Cyhoeddus
£31m	Sector Preifat

Cyflymu'r Economi

Bydd y rhaglen Sgiliau a Thalentau yn darparu:

- **2,200** o ganlyniadau ychwanegol yn ymwneud â sgiliau
- **14,000** o unigolion â sgiliau uwch
- O leiaf **3,000** o brentisiaethau newydd
- **20** fframwaith ar gyfer cyrsiau newydd
- O leiaf **2** ganolfan ragoriaeth

Cyngor Abertawe Swansea Council

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cyflawniadau dros y 12 mis diwethaf

- **Llywodraethu rhaglenni a chymeradwyo rhaglenni peilot:** Cymeradwyodd Bwrdd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol wyth cwrs peilot newydd yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn dod â'r cyfanswm i 33 o raglenni peilot wedi'u cymeradwyo a phum datblygiad prentisiaeth a sgiliau ers i'r rhaglen ddechrau yn 2022. **Darllenwch yr Astudiaeth Achos yn 'Ffocws ar..'**
- **Cyflawni prosiectau peilot yn llwyddiannus:** Cwblhawyd tri phrosiect peilot – Futurescape, Hydrogen Safe a Sgiliau'r 21ain Ganrif – yn llwyddiannus, gyda'r tri yn rhagori ar eu targedau gwreiddiol. Mae hyn yn dod â chyfanswm nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd i 14. **Darllenwch yr Astudiaeth Achos yn 'Ffocws ar..'**
- **Sgiliau ychwanegol:** Cyflawnwyd **27,533** o ymyriadau o ran sgiliau ychwanegol, hefyd crëwyd **45** o fframweithiau hyd yn hyn ar gyfer cyrsiau newydd drwy'r rhaglen, gan gryfhau'r gweithlu rhanbarthol.
- **Buddsoddiad y sector preifat:** Derbyniwyd **£18.07m** o gyllid gan y sector preifat hyd yma ar gyfer y Rhaglen Sgiliau a Thalentau. Disgwylir i'r prosiect ddarparu **£30.96m**, sy'n gynnydd sylweddol o'r targed gwreiddiol o **£4miliwn**, gan ragori ar y disgwyliadau yn sylweddol a chryfhau effaith y rhaglen.
- **Menter Sgiliau ar gyfer y Gweithlu:** Lansiwyd y prosiect Sgiliau ar gyfer y Gweithlu fel ymyrraeth sgiliau rhanbarthol arloesol. Wedi'i gyflwyno ar y cyd gan y pedwar coleg yn y rhanbarth – Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot, Coleg Sir Gâr, Coleg Gŵyr a Choleg Sir Benfro, mae'r prosiect yn gweithio'n uniongyrchol gyda chyflogwyr i nodi anghenion hyfforddi a darparu cymwysterau y gofynnwyd amdanynt gan y diwydiant yn gyflym, gan gefnogi twf y gweithlu a gallu busnes.
- **Peilot Profiad Gwaith:** Cwblhawyd peilot profiad gwaith llwyddiannus yn Ysgol Dyffryn Aman, Sir Gaerfyrddin, gan gyfuno profiad diwydiant go iawn â dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Roedd adborth gan fyfyrwyr, ysgolion a busnesau a gymerodd ran yn gadarnhaol iawn. Mae gwaith paratoi ar y gweill i gyflwyno'r cynllun peilot i ysgolion ychwanegol, ac mae Ysgol Dyffryn Aman wedi parhau â'r rhaglen yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol.
- **Cynllunio gweithlu strategol:** Gweithiodd tîm y prosiect ar y cyd â thîm prosiect Pentre Awel drwy gyfrwng Grŵp Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant Pentre Awel i gefnogi cynllunio'r gweithlu a hyfforddiant cysylltiedig sy'n cyd-fynd ag anghenion datblygu yn y dyfodol.
- **Mapio darpariaeth galwedigaethol:** Cafodd data darpariaeth hyfforddiant galwedigaethol rhanbarthol, a oedd yn cynnwys yr holl opsiynau hyfforddiant galwedigaethol sydd ar gael drwy ysgolion, colegau a phrifysgolion, ei symud o daenlen a oedd yn anodd ei rheoli i blatfform digidol yn y cwmwl. Mae hyn wedi gwella hygyrchedd, cywirdeb ac adrodd. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i fapio cymwysterau i rolau swyddi cysylltiedig, gan alluogi ffordd i nodi bylchau mewn sgiliau a phroblemau ar y llwybr gyrfaoedd yn gyflymach ac yn fwy cywir.
- **Rhannu gwybodaeth a chydweithio:** Cynhaliwyd dau weithdy gydag arweinwyr prosiectau peilot a rheolwyr prosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe i rannu arferion gorau a chael cipolwg ar sut mae'r prosiect yn cael ei gyflawni. Cafodd y rhain dderbyniad da a byddant bellach yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn.
- **Gwybodaeth am y Farchnad Lafur:** Adolygwyd a diweddarwyd y Baromedr Sgiliau, ochr yn ochr ag ymgysylltu rheolaidd â grwpiau yn y Clwstwr Diwydiant i nodi ymhellach fylchau o ran sgiliau mewn sectorau penodol.
- **Cyfathrebu ac Ymgysylltu:** Cafodd y wefan **rlp.org.uk** ei diweddaru gyda fideos, astudiaethau achos a chrynodebau o raglenni peilot a gafodd eu cymeradwyo. Dosbarthwyd deunyddiau marchnata i fyfyrwyr, rhieni a busnesau i hyrwyddo darpariaeth sgiliau a chyfleoedd addysg ledled y rhanbarth.

Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2026/27

- Parhau i weithio gyda sectorau diwydiant ac arweinwyr prosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe i nodi'r bylchau sgiliau sy'n weddill a datblygu prosiectau peilot wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r anghenion hyn.
- Cyflwyno gweithdai pellach gydag arweinwyr prosiectau peilot a rheolwyr prosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe i rannu arfer gorau, annog cydweithredu a sicrhau'r effaith fwyaf bosibl.
- Cefnogi prosiectau peilot ychwanegol wrth iddynt symud ymlaen i gamau cwblhau a gwerthuso.

FFOCWS AR...

Prosiectau peilot newydd cymeradwy i lunio cyflogaeth

Dros y 12 mis diwethaf mae'r rhaglen Sgiliau a Thalentau wedi cymeradwyo wyth prosiect peilot newydd wedi'u hanelu at baratoi pobl ifanc a'r gweithlu ehangach ar gyfer swyddi yn y dyfodol. Mae'r prosiectau a gymeradwywyd yn cynnwys.

Buddsoddiad hyd yma

£1,521,540
o Arian Cyfatebol y Sector Cyhoeddus

£2,450,202
o Arian Cyfatebol y Sector Preifat

Buddsoddiad Preifat o **£19,320,600** mewn Prentisiaethau

Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni peilot hyn yn dangos ymrwymiad y rhaglen i ddatblygu gweithlu gwydn, cynhwysol sy'n barod i'r dyfodol ac sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau economaidd rhanbarthol:

Futurescape 2

Gan adeiladu ar lwyddiant y peilot gwreiddiol, mae'r prosiect yn targedu disgyblion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae dysgwyr yn gweithio mewn timau i greu a rhedeg eu busnesau adeiladu bach eu hunain, gan ddatblygu sgiliau ymarferol a chyflogadwyedd.

Rhagor o fanylion

Semicon West

Wedi'i anelu at gryfhau sgiliau o fewn y diwydiant lled-ddargludyddion, gan gefnogi dysgwyr o'r cyfnod cynradd hyd at addysg uwch, a hefyd uwchsgilio gweithwyr proffesiynol y diwydiant.

Rhagor o fanylion

Canolfan Ragoriaeth Ranbarthol - Celtico

Wedi'i anelu at sefydlu **Canolfan Ragoriaeth** ranbarthol ar gyfer ynni adnewyddadwy ar y môr. Bydd yn cefnogi cwmnïau lleol i ennill contractau cadwyn gyflenwi gwerth uchel sy'n deillio o'r sectorau ynni gwynt arnofiol ar y môr a datblygiadau ynni llanw yn y Môr Celtaidd, aber afon Hafren.

Rhagor o fanylion

Sefydliad Rheolaeth ac Asesu Amgylcheddol (IEMA)

Fersiwn wedi'i diweddaru o gwrs Archwilydd Mewnol IEMA yng Ngholeg Sir Gâr, mae'r prosiect hwn yn rhoi sgiliau i gyfranogwyr i gynnal archwiliadau wedi'u cynllunio ac asesu perfformiad systemau rheoli amgylcheddol eu sefydliadau.

colegsirgâr
colegceredigion

Rhagor o fanylion

Hyfforddi'r hyfforddwr (Lefel 3)

Wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth â Historic England, bydd y prosiect yn datblygu cynlluniau hyfforddi a deunyddiau i gefnogi'r gwaith o ôl-osod adeiladau hanesyddol yn effeithlon o ran ynni. Bydd yn sefydlu cymhwyster Lefel 3 'Mesurau Effeithlonrwydd Ynni: Adeiladau Hŷn', gan helpu i leihau allyriadau carbon, costau ynni a dibyniaeth ar danwydd ffosil.

Historic England

Rhagor o fanylion

Adeiladu ar gyfer y dyfodol

Cyflwynir cwrs Adeiladu Lefel 2 cyfrwng Cymraeg ar gyfer Blynyddoedd 10–11. Wedi'i gyflwyno ar y cyd â Bouygues Construction, mae'n cyfuno dysgu yn yr ystafell ddosbarth, profiad ymarferol, ac ymgysylltu â'r diwydiant ar gyfer 51 o ddisgyblion gan roi iddynt gymwysterau, hyder, a llwybrau dilyniant clir ar gyfer addysg a chyflogaeth.

BOUYGUES CONSTRUCTION

Rhagor o fanylion

Llesiant drwy'r plât cyhoeddus

Nod y prosiect hwn yw sefydlu Canolfan Ragoriaeth trwy drawsnewid arlwyo'r sector cyhoeddus, gyda ffocws ar iechyd, cynaliadwyedd a llesiant cymunedol. Bydd yn datblygu dulliau arloesol o hyfforddi staff arlwyo, gan osod y rhanbarth fel arweinydd mewn arferion bwyd cynaliadwy.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Rhagor o fanylion

Y Byd Gwaith ar gyfer ADY

Nod y prosiect hwn yw ceisio ehangu cyfleoedd profiad gwaith i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) trwy blatfform digidol sy'n cynnig mewnwelediadau rhithwir i'r gweithle. Bydd hefyd yn darparu adnoddau i gyflogwyr i helpu i gefnogi dysgwyr ADY.

Rhagor o fanylion

FFOCWS AR...

Prosiectau peilot a gwblhawyd yn llwyddiannus

Cwblhawyd tri phrosiect peilot - Futurescape, Hydrogen Safe a Sgiliau'r 21ain Ganrif - yn llwyddiannus yn ystod 2025/26. Roedd pob un wedi defnyddio dull gwahanol o baratoi pobl ar gyfer diwydiannau yn y dyfodol, gyda phob un yn rhagori ar eu targedau, gan ddod â chyfanswm nifer y rhaglenni peilot a gwblhawyd i 14.

Gyda'i gilydd, mae'r prosiectau hyn yn dangos sut y gall rhaglenni sgiliau cydweithredol, sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ymateb i anghenion cyfredol y gweithlu tra'n cefnogi twf economaidd hirdymor. Mae partneriaethau diwydiant-addysg cryf, ffocws ar sgiliau trosglwyddadwy, a modelau cyflenwi hyblyg wedi creu dulliau fesul cam o fynd i'r afael â heriau sgiliau rhanbarthol a byd-eang.

Mae'r cynlluniau peilot hyn sydd wedi'u cwblhau yn darparu tystiolaeth glir o'r hyn sy'n gweithio wrth baratoi pobl ar gyfer diwydiannau'r dyfodol ac yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer cyflawni rhaglenni yn y dyfodol.

Futurescape: Paratoi ar gyfer Diwydiannau yn y dyfodol

Nod y peilot hwn oedd helpu dysgwyr, gweithwyr a chyflogwyr i ddeall tueddiadau'r gweithlu yn y dyfodol a luniwyd gan ddigideiddio, datgarboneiddio ac awtomeiddio. Gan weithio'n agos gyda chyflogwyr, cyflwynodd y prosiect sgyrsiau, mentora ac ymweliadau safle a oedd yn cysylltu myfyrwyr â phrofiad diwydiant go iawn. Datblygodd y dysgwyr sgiliau cyfathrebu, llythrennedd digidol, datrys problemau, cynllunio a gwaith tîm trwy weithgareddau ymarferol yn rhan o gwricwlwm yr ysgol.

> Mae Futurescape wedi dangos, pan fyddwn yn cysylltu technoleg ymgollol â phrofiadau busnes yn y byd go iawn, rydyn ni'n tanio uchelgais ac yn datgloi'r potensial ym mhob dysgwr waeth beth fo'i gefndir neu ei fan cychwyn.
>
> **Sue Poole, Cyfarwyddwr, Young Dragons**



> Cyn hyn, doeddwn i ddim yn gwybod dim am adeiladu. Nawr dw i'n meddwl y bydden i'n gallu gwneud swydd fel yna pan fydda i yn hŷn!
>
> **Myfyriwr Blwyddyn 6, Abertawe**

Hydrogen Safe: Adeiladu gallu mewn economi sero net

Canolbwyntiodd y rhaglen beilot hon ar ddatblygu sgiliau a gwybodaeth am ddiogelwch sydd eu hangen ar gyfer y sector hydrogen sy'n dod i'r amlwg, elfen allweddol o uchelgeisiau sero net y rhanbarth. Cyflwynodd hyfforddiant diogelwch hydrogen arbenigol, arddangosiadau ymarferol, a senarios rheoli risg ar gyfer peirianwyr, technegwyr a gweithwyr ynni. Cryfhaodd y prosiect hefyd gydweithrediad rhwng diwydiant, darparwyr hyfforddiant, a rheoleiddwyr.

> Mae'r hyfforddiant ymarferol a roddwyd wedi bod yn fuddiol iawn. Mae wedi rhoi hyder gwirioneddol i ni weithio gyda thechnolegau newydd.
>
> **Dysgwr**

Sgiliau'r 21ain Ganrif: Cryfhau Gallu Craidd

Gan weithio gydag ysgolion lleol, nod y peilot hwn oedd rhoi i unigolion y sgiliau hanfodol, trosglwyddadwy sydd eu hangen ar draws pob sector, gan gynnwys llythrennedd digidol, cyfathrebu, datrys problemau, a chydweithio. Gweithiodd timau ysgolion gyda Bouygues UK i ddylunio cynigion go iawn ar gyfer llawr A2 Pentre Awel, gan arwain at ddigwyddiad ar ffurf rhaglen Dragon's Den gyda'r beirniaid yn cynnwys arweinwyr diwydiant ac awdurdodau lleol. Roedd safon y gwaith yn arbennig, gyda phob ysgol yn derbyn gwobrau a sawl dyluniad yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer defnydd yn y byd go iawn.

> Roedd y prosiect hwn yn syniad gwych gan ei fod yn cynnwys pobl ifanc yn dylunio gofod y bydden nhw efallai am weithio ynddo. Roedd y prosiect hefyd wedi dysgu llawer o sgiliau pwysig i ni.
>
> **Ellie, Dysgwr**

> Y diwrnod gorau yn y gwaith rydw i wedi'i gael ers sawl blwyddyn. Rydyn ni wirioneddol angen pobl ifanc i ddod i weithio ym maes adeiladu, ac roedd lefel y manylion a'r ddealltwriaeth a ddangoswyd gan grŵp mor ifanc yn syfrdanol. Roedd o leiaf un o'r dyluniadau hyn o safon broffesiynol a gallai tenant ei ddefnyddio.
>
> **Pennaeth Safle Bouygues, Pentre Awel**



Y Sefydliad Cenedlaethol dros Chwaraeon ac Iechyd

Sganiwch os gwelwch yn dda

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Chwaraeon ac Iechyd yn canolbwyntio ar dyfu a chryfhau'r sectorau Technoleg Chwaraeon a Thechnoleg Feddygol. Bydd yn cyflawni hyn drwy ddatblygu cyfleuster ymchwil ac arloesi pwrpasol ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe, Prifysgol Abertawe, ochr yn ochr â chreu rhwydwaith o arbenigedd sy'n canolbwyntio ar y sector. **Rhagor o fanylion.**



£135.4m	Buddsoddiad
£15m	Y Fargen Ddinesig
£58m	Sector Cyhoeddus
£62.4m	Sector Preifat

Gwyddor bywyd a llesiant

Bydd y prosiect hwn yn Abertawe yn darparu:

- **1,120** o swyddi
- **2,000m²** o ofod ymchwil ac arloesi mewn technoleg chwaraeon a thechnoleg feddygol
- Rhwydwaith o dros **300** o gwmnïau clwstwr
- Dros **100** o gyfleoedd arloesi a masnachol
- **£150m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

Cyngor Abertawe Swansea Council

Swansea University Prifysgol Abertawe

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Swansea Bay University Health Board

Cyflawniadau dros y 12 mis diwethaf

- **Ail-frandio'r prosiect:** Ailenwyd y prosiect yn Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Chwaraeon ac Iechyd, gan adlewyrchu ei esblygiad a'i gwmpas estynedig.
- **Cynnydd adeiladu:** Dechreuodd Willmott Dixon adeiladu'r cyfleuster yn Lôn Sgeti ar Gampws Singleton Prifysgol Abertawe. Adeilad blaenllaw pedwar llawr 2,000 metr sgwâr yn cefnogi arloesedd ar draws chwaraeon, iechyd a thechnoleg.
- **Ymgysylltu â thenantiaid:** Mae wyth sefydliad, gan gynnwys Vodafone a Frontrunner Events, wedi ymgymryd â lle yn adeilad Sefydliad Gwyddorau Bywyd 2. Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda nifer o sefydliadau ynglŷn â meddiannu gofod swyddfa yn y cyfleuster newydd yn Lôn Sgeti Lane ar ôl ei gwblhau.
- **Hyrwyddo digidol:** Cynhyrchwyd fideo 'golwg o'r awyr' o'r cyfleuster ar Lôn Sgeti i arddangos y datblygiad. **Gwylio'r fideo 'golwg o'r awyr'.**
- **Mireinio cwmpas y prosiect:** Cafodd cam un ei fireinio o fod yn fodel dau safle (Lôn Sgeti ac Ysbyty Treforys) i ddatblygiad un safle yn Lôn Sgeti, gan gryfhau'r ffocws a'r cyflawniad.
- **Twf y rhwydwaith:** Ehangodd rhwydwaith y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Chwaraeon ac Iechyd i 58 aelod, gan gynnwys Mentrau Bach a Chanolig lleol a chwmnïau technoleg rhyngwladol.
- **Ymweliad Gweinidogol:** Ymwelodd Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Gymru, Jo Stevens AS, â Chanolfan Ddysgu trwy Efelychu a Throchi Prifysgol Abertawe i archwilio sut mae technolegau trochi yn hyrwyddo perfformiad, adsefydlu a chanlyniadau iechyd.
- **Menter cynhwysiant digidol:** Mewn cydweithrediad â rhaglen Seilwaith Digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Vodafone, cefnogodd y prosiect fenter y Gronfa Arloesi 5G gwerth £1.5m (a sicrhawyd yn 2024). Mae'r fenter hon yn mynd i'r afael ag allgáu digidol trwy ddosbarthu 3,000 o gardiau SIM i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.
- **Cydweithio ar sgiliau:** Roedd ymgysylltu â rhaglen Sgiliau a Thalentau Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn archwilio datblygu cyrsiau newydd a oedd yn cyd-fynd ag anghenion y sector.
- **Cynllun Peilot Sgiliau Agor:** Parhaodd y gwaith gweithredu ar gynllun peilot Sgiliau Agor – Iechyd a Llesiant Chwaraeon gwerth £150k, gyda'r nod o fynd i'r afael â phrinder sgiliau yn y sector sy'n tyfu'n gyflym. **Rhagor o wybodaeth.**
- **Partneriaethau strategol:** Cydweithrediad parhaus â sefydliadau allweddol mewn sectorau targed, gan gynnwys y Gweilch, Chwaraeon Cymru, Vodafone a Hoci Cymru.
- **Digwyddiadau ac allgymorth:** Mynychwyd a chynhaliwyd cyfanswm o 35 o ddigwyddiadau ledled y DU i hyrwyddo'r prosiect, gan gynnwys:
  - Digwyddiad Arddangosfa Efelychu Chwaraeon (Prifysgol Abertawe): Digwyddiad ~ rhyngweithiol sy'n dangos rôl technoleg ymgollol mewn Iechyd a Llesiant, perfformiad athletaidd, atal anafiadau ac adsefydlu.
  - Gweithdai Ymgollol ym maes Arloesi Sesiynau ar gyfer gweithwyr proffesiynol, addysgwyr ac arloeswyr i archwilio technolegau efelychu sy'n dod i'r amlwg.
  - Fforwm Buddsoddi Rhyngwladol (Casnewydd): Presenoldeb ochr yn ochr â buddsoddwyr byd-eang a rhanddeiliaid, gyda Chyfarwyddwr y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Chwaraeon ac Iechy , yr Athro Keith Lloyd, yn cyfrannu at drafodaeth banel a oedd yn arddangos Cymru fel prif gyrchfan ar gyfer buddsoddi mewn gwyddorau bywyd.
  - Gwobrau Technoleg Chwaraeon (Llundain): Prif noddwr y digwyddiad brecinio a chyd-noddwr y seremoni wobrwyo.

Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2026/27

- Agoriad swyddogol cyfleuster Lôn Sgeti a chynefino aelodau a thenantiaid newydd.
- Cyflwyno digwyddiadau cydweithredol pellach i helpu i fanteisio i'r eithaf ar ymgysylltu.
- Cynnal mwy o ddigwyddiadau a chyfleoedd cydweithredu i fusnesau dyfu ac arloesi a chefnogi mwy o fusnesau yn eu hymchwil a'u cyllid.

FFOCWS AR...

Entrepreneuriaeth yn ffynnu yn ne Cymru

Mae entrepreneuriaeth yn ne Cymru yn parhau i fynd o nerth i nerth, ac yn cael ei ysgogi gan ecosystem arloesi ddeinamig a chefnogaeth gref gan Lywodraeth Cymru a phrifysgolion. Mae cwmni Imersifi a ddechreuodd ym Mhrifysgol Abertawe, yn enghraifft dda o lwyddiant. Mae'r cwmni technoleg ymgollol hefyd yn aelod o rwydwaith y Sefydliad Cenedlaethol dros Chwaraeon ac Iechyd.

Dechreuodd y cyd-sylfaenwyr Joe Charman a Jack Bengeyfield eu taith fel myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe. Heddiw, maen nhw'n arwain dwy fenter lwyddiannus a chyflenwol:

- Pilot Plus, sy'n datblygu amgylcheddau maes awyr 3D manwl iawn ar gyfer systemau efelychu hedfan.
- Imersifi, sy'n darparu hyfforddiant ac addysg arloesol ar realiti rhithwir ar gyfer busnesau ledled y byd.

Wrth astudio ar gyfer eu graddau Meistr mewn Realiti Rhithwir, roedd y sylfaenwyr yn cydnabod potensial sylweddol technolegau ymgollol. Wedi'u hysgogi gan hyn, fe wnaethant lansio Imersifi gyda gweledigaeth glir sef: dylunio profiadau realiti rhithwir pwrpasol sy'n gwella hyfforddiant, diogelwch a dysgu ar draws ystod o ddiwydiannau.

Yn nyddiau cynnar y busnes, dyfarnwyd Gwobr Menter Santander i Immersifi, gan ddarparu'r gefnogaeth ariannol angenrheidiol i ganolbwyntio ar dyfu'r cwmni yn llawn amser. Dilynwyd hyn gan lwyddiant yn The Big Pitch 2018, gan alluogi buddsoddiad mewn offer uwch, ehangu i farchnadoedd newydd, a chaffael cleientiaid proffil uchel. Roedd cefnogaeth barhaus gan dîm menter Prifysgol Abertawe hefyd wedi chwarae rhan hanfodol wrth gynnal a chyflymu twf y cwmni.

Er mai Bryste oedd lleoliad y busnes ar y cychwyn, roedd Imersifi yn cydnabod manteision adleoli i Gymru. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, partneriaethau cryf prifysgolion, ac ecosystem leol gydweithredol, symudodd y cwmni i Abertawe ac mae bellach yn rhan o adeilad Sefydliad Gwyddorau Bywyd 2 Prifysgol Abertawe ar Gampws Singleton. Mae symud lleoliad wedi galluogi Imersifi i adeiladu cysylltiadau o fewn rhwydwaith ffyniannus o gymunedau technoleg, ymchwil a menter. Mae aelodaeth o rwydwaith y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Chwaraeon ac Iechyd, wedi gwella mynediad at gyfleoedd i gydweithio, ymchwil a rhwydweithio ymhellach, gan helpu i gyflymu arloesi a datblygu busnes.



> Nid yw llwyddiant yn ymwneud â buddsoddiad mawr - mae'n ymwneud ag ymdrech ddi-baid, chwilfrydedd creadigol, a chryfder rhwydwaith cefnogol. Mae bod ar y campws ac yn rhan o rwydwaith y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Chwaraeon ac Iechyd yn dod â'n busnes yn fyw, gan agor drysau i academyddion, myfyrwyr a chyfleoedd sy'n helpu syniadau i dyfu. Mae ein lleoliad yn caniatáu inni gydweithio'n rheolaidd ag academyddion, arddangos ein technoleg i gynulleidfa ehangach, a'i gwneud yn fwy hygyrch i fyfyrwyr - gan ein galluogi i ddatblygu a defnyddio profiadau addysgol yn fwy effeithlon.
>
> **Joe Charman**
> **Cyd-sylfaenydd Imersifi**

Pentre Awel

Mae Pentre Awel yn cyfuno ymchwil feddygol o'r radd flaenaf, cyfleusterau datblygu busnes, gofal iechyd cymunedol, byw â chymorth, gwesty a chanolfan hamdden a gweithgareddau dŵr o'r radd flaenaf. Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn cefnogi bywydau iachach, mwy egnïol ac yn ysgogi twf economaidd cynaliadwy. **Rhagor o fanylion.**

Sganiwch os gwelwch yn dda



£218.6m Buddsoddiad
£40m Y Fargen Ddinesig
£68.5m Sector Cyhoeddus
£110.1m Sector Preifat

Gwyddor bywyd a llesiant

Wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin, bydd yn darparu:

- **1,853** o swyddi
- Hyd at **50,000m²** o ddatblygiad ar draws y pedwar parth
- **20,000m²** o gyfleusterau busnes, ymchwil, addysg, clinigol, hamdden a chymunedol o fewn Canolfan
- **80** o fusnesau wedi'u sefydlu a'u cefnogi o fewn y sectorau gwyddorau bywyd, iechyd a gofal cymdeithasol
- **£467m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

LLANELLI - SIR GAERFYRDDIN - CYMRU
Pentre Awel
LLANELLI - CARMARTHENSHIRE - WALES

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cyflawniadau dros y 12 mis diwethaf

- **Agor Canolfan:** Agorodd Canolfan yn swyddogol, gan gynnwys pwll nofio 25 metr, wyth lôn, campfa fawr, stiwdios ffitrwydd a chwilbedlo, neuadd chwaraeon a chaffi. Datgomisiynwyd hen Ganolfan Hamdden Llanelli, gyda staff yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'r cyfleuster newydd. Mae Canolfan yn cael ei rheoli gan Gyngor Sir Caerfyrddin.
- **Seremoni agoriadol:** Mynychwyd y seremoni agoriadol gan Rebecca Evans AS, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, ac Anna McMorrin, Aelod Seneddol ac Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru ar ran Llywodraeth y DU, ochr yn ochr â chynghorwyr, partneriaid prosiect, contractwyr, cynrychiolwyr yn y gadwyn gyflenwi a sefydliadau'r trydydd sector.
- **Lansio pwll hydrotherapi:** Agorwyd pwll hydrotherapi pwrpasol yn swyddogol i gefnogi adsefydlu, rheoli poen a symudedd. Roedd y digwyddiad yn cydnabod cyfraniadau cyfalaf gan elusennau lleol, a llofnododd Cyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gytundeb cydweithio i'w ddefnyddio ar y cyd.
- **Ymweliad Gweinidogol:** Ymwelodd y Prif Weinidog Eluned Morgan â Canolfan i weld y datblygiad a thrafod parthau Pentre Awel yn y dyfodol.
- **Parodrwydd gweithredol:** Llwyddwyd i recriwtio i rolau allweddol gan gynnwys Prif Swyddog Gweithredu, Rheolwr Arlwyo, Rheolwr y Ganolfan Hamdden, Rheolwr Cyfleusterau a dau Reolwr Busnes ac Arloesi. **Darllenwch yr Astudiaeth Achos yn 'Ffocws ar..'**



- **Effaith Hamdden a Llesiant:** Cofnodwyd dros 1000 o aelodau newydd i Actif ar ôl agor. Cafwyd mwy na 90,000 o ymweliadau ar draws y cyfleusterau hamdden, ffitrwydd a gweithgareddau dŵr yn ystod y tri mis cyntaf - cynnydd o 85% o'i gymharu â'r hen ganolfan hamdden. Roedd trosiant y caffi wedi rhagori ar y disgwyliadau gyda chynnydd o 400% o'i gymharu â'r cyfleuster blaenorol.
- **Budd i'r Gymuned Bouygues UK:**
  Daeth rhaglen Budd i'r Gymuned Bouygues UK i ben gyda chanlyniadau eithriadol yn ystod cyfnod adeiladu Canolfan:
  - 6,011 o wythnosau person ar gyfer hyfforddiant a recriwtio wedi'u targedu, sy'n fwy na'r ymrwymiad cytundebol o 4,680 o wythnosau person. Roedd hyn yn cynnwys 71 o brentisiaid, 76 o newydd-ddyfodiaid, 32 o hyfforddeion, 11 o leoliadau profiad gwaith ac 8 o raddedigion.
  - Ymgysylltu ag 817 o ddisgyblion ysgol gan ddarparu 255 awr o weithgarwch mewn ysgolion.
  - Dau brosiect dysgu yn y byd go iawn a ddarparwyd drwy fenter Sgiliau a Thalentau Bargen Ddinesig Bae Abertawe, a oedd yn cynnwys disgyblion o bum ysgol leol.
  - Gwariwyd £52 miliwn gydag isgontractwyr o Gymru (74% o gyfanswm gwariant y gadwyn gyflenwi), gan gynnwys £6 miliwn o fewn côd post SA.
  - Cyflawnwyd dros £35m o werth cymdeithasol.
- **Budd i'r Gymuned WB Griffiths:**
  Dechreuodd rhaglen Budd i'r Gymuned WB Griffiths fel rhan o waith iechyd ac ymchwil Hywel Dda, gan ddarparu:
  - 50 o wythnosau person o hyfforddiant a recriwtio wedi'u targedu (tuag at darged o 280 wythnos).
  - 24 awr o ymgysylltu â disgyblion (tuag at darged o 40 awr).
  - Cefnogaeth i brosiect dysgu yn y byd go iawn.
- **Amgylchfyd cyhoeddus a hygyrchedd:**
  Cwblhawyd tirlunio caled a meddal, gan gynnwys llwybr cerdded a beicio 1.38km o amgylch y llyn, seddi yn yr awyr agored, gerddi synhwyraidd.

- **Trafnidiaeth gynaliadwy:** Gosodwyd 21 o fannau gwefru cerbydau trydan gan Nest EV Group (cam 1) a nodwyd mannau ar gyfer gosod 12 arall. Dechreuodd gwasanaeth bws cyhoeddus newydd hefyd, gyda naw gwasanaeth dyddiol yn gwella mynediad i'r cyhoedd.
- **Cyllid wedi'i sicrhau:** Dyfarnwyd £213,000 o Gyllid Blwyddyn Pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU i hyrwyddo partneriaeth ymchwil ac arloesi gyda Tritech, i gyflawni gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned, a sefydlu bwrsariaeth i ddenu entrepreneuriaid a busnesau newydd.
- **Gwobrau a Chydnabyddiaeth:** Derbyniodd Pentre Awel y wobr 'Rhagoriaeth mewn Gwerth Cymdeithasol' yng Ngwobrau Go Cymru 2025 a'r wobr Amgylchedd, Cymdeithasol a Llywodraethu yng Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru 2025. Dyfarnwyd Aur i'r prosiect hefyd ym maes Diogel drwy Ddylunio.
- **Hyrwyddo buddsoddiad:** Cafodd y prosiect ei arddangos yn yr Uwchgynhadledd Buddsoddi Ryngwladol yn y Ganolfan Gynadledda Rhyngwladol yng Nghasnewydd, gyda chyflwyniadau gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn tynnu sylw at arloesedd o ran cyfleoedd gwyddorau bywyd.
- **Ymgysylltu Cymunedol:** Mewn partneriaeth â Foothold Cymru, cynhaliwyd rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu misol, gan gynnwys gweithdai creadigol, adrodd straeon, marchnadoedd tymhorol, a dathliadau diwylliannol.
- **Ymgysylltu â busnes:** Gyda chefnogaeth Savills ac Ymgynghorwyr Eiddo BP2, ymgysylltwyd â dros 140 o fusnesau, gyda mwy na 45 o ymweliadau safle gan ddarpar denantiaid.
- **Digwyddiadau mawr:** Cynhaliodd Pentre Awel nifer o ddigwyddiadau ar raddfa fawr, gan gynnwys lansio Strategaeth Ymchwil ac Arloesi Hywel Dda, digwyddiad Heneiddio'n Dda a fynychwyd gan dros 300 o bobl, a dathliad Dydd Gŵyl Dewi.
- **Dilyniant dylunio:** Aeth gwaith dylunio rhagddo ar gyfer Cam 3 a 4 RIBA gyda'r penseiri Powell Dobson i greu gofod busnes ac arloesi ar yr ail lawr a chyfleusterau cynadledda ar raddfa fawr.
- **Cynnydd Parth 3:** Dechreuwyd ar y gwaith dylunio i ddatblygu'r elfennau byw â chymorth.
- **Cynnydd Parth 4:** Bu Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwrw ymlaen ag ymarfer caffael cystadleuol gyda datblygwyr a gweithredwyr gwestai ar gyfer Gwesty Llesiant Parth 4.



Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2026/27

- Cwblhau'r gwaith o osod gofod iechyd ac ymchwil Hywel Dda a dechrau sesiynau gyda chleifion
- Cwblhau dyluniad ar gyfer gofod busnes ac arloesi a chyfleusterau cynadledda a phenodi contractwr i gyflawni'r gwaith.
- Sicrhau tenantiaid busnes trwy ymgyrchoedd marchnata ac ymgysylltu wedi'u targedu
- Symud Parthau 2 a 3 (byw â chymorth) ymlaen i RIBA Cam 2, gan integreiddio gofal nyrsio, gofal ychwanegol a byw â chymorth
- Cau'r broses gaffael ar gyfer Gwesty Llesiant Parth 4 a phenodi gweithredwr/datblygwr.

FFOCWS AR...

Agoriad swyddogol Pentre Awel

Agorodd cam cyntaf Pentre Awel, sef Canolfan, i'r cyhoedd ym mis Hydref 2025, gan nodi carreg filltir bwysig i un o brosiectau llesiant ac adfywio mwyaf arwyddocaol Sir Gaerfyrddin. Cafwyd y cipolwg gyntaf ar gyfleusterau Canolfan o ran iechyd, hamdden, busnes a dysgu o'r radd flaenaf.

Dilynwyd hyn gyda seremoni agoriadol ffurfiol ym mis Rhagfyr 2025, gan ddod â phartneriaid o Gyngor Sir Caerfyrddin, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, a rhanddeiliaid cymunedol allweddol at ei gilydd i ddathlu'r datblygiad nodedig yn ffurfiol.

Mae'r pwll hydrotherapi, a agorodd ym mis Mawrth 2026, bellach yn darparu gwasanaethau therapiwtig i gleifion — cam mawr ymlaen o ran darparu cymorth iechyd a llesiant integredig o ansawdd uchel ar draws Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Roedd hyn yn bosibl trwy gefnogaeth Pwyllgor Pwll Hydrotherapi Llanelli, Gwaddol Elizabeth Williams, Treat Trust Wales, a chyllid Llywodraeth Cymru, mae'r cyfleuster yn adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd i greu gwasanaeth hygyrch, clinigol gadarn i'r gymuned leol.

- **603,000 litr o ddŵr** yn y pwll 25 metr, wyth lôn - sy'n cyfateb i 12,000 o lwythi mewn peiriannau golchi dillad.
- **21 o fannu gwefru cerbydau trydan**, sy'n fwy na chapasiti llawer o wasanaethau trafforddy DU.
- **104 o orsafoedd ffitrwydd** gan gynnwys cardio, gwrthiant a phwysau rhydd.
- **£35m** o werth cymdeithasol wedi'i gyflawni.
- Tua **1,750 o gwpanau o goffi** yn cael eu gweini bob wythnos yn y caffi.
- **414 o baneli solar ar y to**, gan gynhyrchu 200 kWp.
- **218 o seddi gwylwyr yn edrych dros y pwll**, sef y capasiti cyfatebol o ran teithwyr a chriw awyren Boeing 737.
- **Dros 1,000 o aelodau Actif newydd** ers agor.
- **Dros 6,000m² o ofod busnes** gyda chapasiti ar gyfer tua 1,000 o ddesgiau.
- Defnyddiwyd **75%** o'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru yn ystod y gwaith adeiladu.
- Cefnogwyd **62** o brentisiaid Mecanyddol a Thrydanol, ochr yn ochr â **2,300 a mwy** o oriau ymgysylltu â disgyblion.

> Roedd Pentre Awel wedi fy nghyffroi o'r cychwyn cyntaf, ond mae'r realiti wedi rhagori ar fy nisgwyliadau. Yr hyn sy'n gwneud y lle mor unigryw yw sut mae'n dod â gofal iechyd, ymchwil, addysg, busnes a'r gymuned at ei gilydd dan yr un to — rhywbeth na welir mewn mannau eraill yng Nghymru. Rydyn ni eisoes yn gweld y gwahaniaeth y mae'r cydweithrediad hwn yn ei wneud: gwella iechyd, creu cyfleoedd a helpu pobl i fyw bywydau gwell. Mae'r cyfle sydd ar gael yma hyd yn oed yn fwy nag yr oeddwn i'n ei ddychmygu, ac mae'r dyfodol yn ddisglair iawn wrth i ni symud ymlaen i'r camau nesaf.
>
> **Mags Pullen, Prif Swyddog Gweithredu**



Barn Arweinwyr a Thimau Cyflawni

Mae Pentre Awel yn darparu amgylchedd gwirioneddol unigryw lle mae busnesau'n rhan o ecosystem iechyd a llesiant ehangach, ochr yn ochr â phrifysgolion, clinigwyr a phartneriaid cymunedol. Mae'r cyfleusterau o'r radd flaenaf wedi'u cynllunio ar gyfer cydweithredu, arloesi a thwf, gan greu llwyfan ar gyfer datblygu busnes cynaliadwy a chreu swyddi. Yr hyn sy'n sefyll allan yw'r cyfle i sefydliadau nid yn unig i dyfu, ond cyfrannu at wella bywydau, sy'n rhoi hyd yn oed mwy o ystyr i'w gwaith.

Sophie Rudall-Jones
Rheolwr Busnes ac Arloesi

Mae'r chwe mis cyntaf wedi bod yn anhygoel - mae bwrlwm go iawn yma, gyda thwf cryf o ran aelodaeth a mwy o bobl yn dewis bod yn egnïol. Dyma rai o'r cyfleusterau mwyaf datblygedig rydw i wedi'u gweld, nid yn unig yn y rhanbarth ond ledled Cymru, o'r gampfa a'r neuadd chwaraeon sydd o'r radd flaenaf i'r pwll hydrotherapi sy'n cefnogi adsefydlu ac adferiad. Mae'n ysbrydoledig gweld effaith Pentre Awel ar iechyd.

Damian James
Rheolwr y Ganolfan Hamdden

Mae'r caffi wedi dod yn ganolbwynt i Bentre Awel mewn dim o dro. Mae'n fwy na lle i fwyta yn unig - mae'n ofod lle mae pobl yn cysylltu, p'un a ydyn nhw'n ymweld am wasanaethau iechyd, gwaith, hamdden neu yn syml i gymdeithasu. Rydyn ni'n gweld llif cyson o bobl newydd ac ymwelwyr sy'n dychwelyd, gan greu ymdeimlad cryf o gymuned. Mae'r awyrgylch cyfeillgar a'r amrywiaeth o ymwelwyr yn adlewyrchu'r hyn sy'n gwneud Pentre Awel yn unigryw - mae'n dod â phobl at ei gilydd mewn ffordd sy'n cefnogi llesiant a bywyd bob dydd.

Alun Davies
Rheolwr Arlwyo a Manwerthu Actif

Adborth gan y gymuned a defnyddwyr

Fel clwb rhedeg hirsefydlog yn Llanelli sy'n gysylltiedig ag Athletau Cymru, nid ydyn ni erioed wedi cael canolfan barhaol mewn gwirionedd. Ym mis Hydref 2025, cynhaliodd y clwb ddigwyddiad Athletau Cymru 'Own the Night' ym Mhentre Awel, gan hyrwyddo rhedeg a diogelwch merched. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr a ddenodd sawl aelod newydd. Pan gododd y cyfle i sefydlu lleoliad parhaol yma, roedden ni wrth ein boddau ac nid ydym wedi edrych yn ôl ers hynny.

Mae'r cyfleusterau'n ardderchog, ac mae'r amgylchedd croesawgar - yn enwedig yn ystod misoedd oer y gaeaf - wedi helpu i gynyddu ein haelodaeth gyda 15 aelod ychwanegol ers i ni ddechrau yma yn y ganolfan hamdden. Mae'r gofod hefyd yn caniatáu inni gyfarfod, cynnal sesiynau briffio, a recordio ein podlediad newydd i redwyr.

Viv, Clwb Rhedeg y Sospan

Llwyddais i fynd allan ar fy meic, ac aeth y llwybr â mi heibio'r ganolfan hamdden ac i lawr i'r llyn. Roeddwn ni am gysylltu â chi i ddweud bod yr hyn mae'r tîm wedi'i gyflawni yn rhagorol.

Rydyn ni'n byw mewn byd lle mae pobl yn aml yn ddigon parod i gwyno ond yn oedi cyn rhoi canmoliaeth, felly roeddwn am wneud yn siŵr bod eich ymdrechion yn cael eu cydnabod. A fyddech cystal â mynegi fy niolch a llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi ymwneud â'r gwaith.

Aelod o'r cyhoedd

Mae cyfleusterau gwych yng Nghanolfan Hamdden newydd Pentre Awel. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at yr adeg pan fydd y safle cyfan wedi'i gwblhau. Mae'r hygyrchedd yn wych —– mae'r agwedd honno wedi creu argraff arbennig arnaf. Mae'r mannau agored mawr yn ei gwneud hi'n hawdd i ddefnyddwyr cadair olwyn symud o gwmpas.

Aelod o'r cyhoedd

Pwll hardd a chyfleusterau newid gwych. Mae'r ardal newid gyda chiwbiclau unigol sy'n cloi yn gweithio'n dda. Mae golygfeydd o'r awyr agored wrth i chi nofio, ac mae cloc digidol enfawr yn eich helpu i gadw golwg ar amser.

Defnyddiwr newydd i'r pwll nofio

Roedd yn ddiwrnod gwych gyda chanu hyfryd gan y corau. Mae'r lleoliad mor olau a glân. Mae'r staff yn gymwynasgar iawn ac mae prisiau'r caffi yn rhesymol iawn. Rwy'n edrych ymlaen at gael fy ngwahodd i fwy o ddigwyddiadau ym Mhentre Awel.

Michell Burke, mynychodd ffair grefftau Dydd Gŵyl Dewi yn Canolfan

Ardal Forol Doc Penfro (AFDP)

Nod Ardal Forol Doc Penfro yw sefydlu cyfleusterau o'r radd flaenaf ym maes ynni a pheirianneg forol, saernïo a chyfleusterau er mwyn cynnal profion i gefnogi twf yn yr economi carbon isel. Mae'r rhaglen yn cael ei chyflawni drwy bedwar prif brosiect. **Rhagor o fanylion.**

Sganiwch os gwelwch yn dda



£70.4m	Buddsoddiad
£28m	Y Fargen Ddinesig
£19.6m	Sector Cyhoeddus
£22.7m	Sector Preifat

Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar

Wedi'i lleoli yn Sir Benfro, disgwylir i'r rhaglen gyflawni'r canlynol:

- **1,881** o swyddi
- **60,600m²** o seilwaith ffisegol
- Cyfraniad o **1,000 MW** at dargedau datgarboneiddio
- **£343.3m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

Port of Milford Haven · CATAPULT Offshore Renewable Energy · CELTICSEAPOWER · MARINE ENERGY WALES · Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop European Regional Development Fund

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Cyflawniadau dros y 12 mis diwethaf

Seilwaith Doc Penfro – dan arweiniad Porthladd Aberdaugleddau

Rhagor o fanylion

- Parhaodd gweithrediadau masnachol ym Mhorthladd Penfro, gyda phontynau cychod gwaith, llithrfa a lle storio yn cael eu defnyddio gan ystod o fusnesau bach a chanolig gan gynnwys Mainstay Marine Solutions, Kam Construction, RNLI a Jevington Logistics. Roedd defnydd o'r llithrfa yn 38% yn ei flwyddyn gyntaf, gyda ffocws ar ddatblygu sylfaen hirdymor a chyson o gwsmeriaid.
- Croesawyd dau denant newydd – Nolan Transport a Busa – i Randai'r Awyrendai, gan ddarparu gofod swyddfa a gweithdy modern yn dilyn cwblhau'r gwaith adnewyddu yn ystod haf 2024.
- Cafodd yr eiddo masnachol ei hyrwyddo'n rheolaidd gan ddefnyddio platfformau digidol, gwefannau a sianeli cymdeithasol y sector eiddo yn ogystal â diwrnod agored ar y safle. Mae'r gweithgaredd hwn yn creu diddordeb cryf yn y farchnad.
- Cynhaliwyd sawl digwyddiad ar gyfer buddsoddwyr yn y Porthladd, gan arddangos y cyfleusterau a'r cyfleoedd ehangach.
- Llwyddodd Porthladd Aberdaugleddau i ennill Ardystiad Great Place to Work® 2025/26, gan nodi'r trydydd tro iddo dderbyn yr achrediad mawreddog hwn.
- Derbyniodd Porthladd Aberdaugleddau ddatganiad yn nodi ei hardystiad parhaus o ran System Rheoli Integredig y Porthladd wrth fodloni ISO 45001, 9001 a 45001 sy'n dangos ei ymrwymiad parhaus i ansawdd, perfformiad amgylcheddol, ac iechyd a diogelwch.



Parth Arddangos Sir Benfro (PDZ) – dan arweiniad Celtic Sea Power

Rhagor o fanylion

- Dechreuodd y prosiect Seinwedd Tanfor ar draws y Môr Celtaidd mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerwysg a Celtic Sea Power. Mae'r fenter ymchwil forol arloesol hon yn canolbwyntio ar ddeall sŵn tanddwr a bywyd morol yng nghyd-destun datblygu ynni gwynt ar y môr yn y Môr Celtaidd. Darllenwch yr Astudiaeth Achos yn 'Ffocws ar..'
- Roedd prosiect Teyrnas Ynni Aberdaugleddau wedi parhau i symud ymlaen â dylunio a chydsynio cynllun ar gyfer cynhyrchu ynni hydrogen carbon isel ar y môr o fewn Parth Arddangos Sir Benfro. Cafodd y prosiect ei arddangos mewn sawl digwyddiad mawr, gan gynnwys:
  - All Energy Conference, Glasgow
  - Wythnos Dechnoleg Cymru, Casnewydd
  - Innovate UK Hydrogen Innovation Showcase, Manceinion
  - Cynhadledd Ocean Energy Europe, Yr Alban
- Sicrhawyd £210k o gyllid gan Ystâd y Goron ar gyfer prosiect STRING-OE, gan gefnogi datblygu prosbectws buddsoddi ar gyfer cyfleuster profi cam hwyr o fewn Parth Arddangos Sir Benfro, sydd wedi'i alinio â chynllun Twf Diwydiannol Ynni Gwynt ar y Môr y DU.
- Cyflwynwyd cais ymchwil a datblygu cydweithredol, sy'n canolbwyntio ar y rhanbarth i Innovate UK gyda chefnogaeth gan bob un o bedwar partner y Porthladd Rhydd Celtaidd. Er na fu'r cais yn llwyddiannus, roedd y cais wedi cryfhau gweithio mewn partneriaeth.
- Datblygwyd cais Innovate UK Launchpad pellach ar gyfer Teyrnas Ynni Aberdaugleddau, gyda chefnogaeth gref gan y sector preifat, ond ni fu'r cais yn llwyddiannus chwaith.
- Datblygwyd cynnig ar gyfer Canolfan Genedlaethol i Brofi Gwynt Arnofiol o amgylch Parth Arddangos Sir Benfro a'i rannu ag Ystâd y Goron.

Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol - dan arweiniad ORE Catapult

Rhagor o fanylion

- Mae'r prosiect Seinwedd Tanfor hefyd wedi symud ymlaen trwy'r Ganolfan Ragoriaeth gan gefnogi dealltwriaeth ranbarthol o effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â datblygu ynni gwynt ar y môr. **Darllenwch yr Astudiaeth Achos yn 'Ffocws ar..'**
- Cyflwynwyd cais llwyddiannus am gyllid ychwanegol sylweddol i wella'r gwaith cyflawni, gan gynnwys:
  - £210k o brosiect STRING-OE Ystâd y Goron.
  - £52k o gyllid gan Innovate UK Launchpad ar gyfer prosiect trosi ynni'r môr sef Anaconda, gan ddefnyddio rig profi pwrpasol Prifysgol Abertawe ar gyfer deunydd hyblyg.
  - £191k gan Vinnovate i gefnogi prosiect Magallanes, sy'n dylunio seilwaith trydanol ar safle Morlais.
  - £150k o Raglen Cymorth Arloesi Hyblyg Smart Llywodraeth Cymru i asesu dichonoldeb gweithgynhyrchu tyrau gwynt gan ddefnyddio dur TATA.
- Comisiynwyd Radar Band-X yn llawn ym Mhenrhyn Santes Anne. Gan ddefnyddio arbenigedd dysgu peirianyddol ORE Catapult, mae'r Ganolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol yn asesu dichonoldeb rhagolygon tywydd tymor byr gan ddefnyddio radar ar gyfer gweithrediadau ar y môr.
- Gwelwyd cynnydd ym mhrosiect Seastack, gan ddatblygu electroleiddiwr ar ffurf prototeip sy'n gallu cynhyrchu hydrogen gwyrdd yn uniongyrchol o ddŵr y môr gan leihau o bosib costau cynhyrchu hydrogen.
- Cyflwynwyd Cystadleuaeth Arloesedd mewn Monitro Amgylcheddol, gan gefnogi saith technoleg sy'n dod i'r amlwg. Arddangoswyd tri ohonynt yn Ardal Profi Ynni'r Môr gan ddenu £200k mewn buddsoddiad preifat.
- Cyflwynwyd sawl Mynegiad o Ddiddordeb, ynghyd ag Ynni Morol Cymru a Phrifysgol Abertawe, i gonsortiwm Diwydiant Sero Net Cymru, Cyngor Castell-nedd Port Talbot gan edrych ar Gyllid Partneriaethau Arloesi Lleol.
- Dewiswyd un ar ddeg o fusnesau o dde Cymru ar gyfer rhaglen Addas ar gyfer Ynni Adnewyddadwy ar y Môr (F4OR) ORE Catapult, a ariennir ar y cyd gan raglen Sgiliau a Thalentau Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sy'n cefnogi parodrwydd y gadwyn gyflenwi ar gyfer cyfleoedd ynni gwynt ar y môr.
- The project was promoted through sponsorship and participation at major events, including Marine Energy Wales conference in Cardiff, Future Energy Wales conference in Newport, Wales Tech Week in Newport, Seawork exhibition in Southampton, European Wave and Tidal Energy Conference in Portugal and Spotlight Event in Edinburgh.

Ardal Profi Ynni'r Môr - dan arweiniad Ynni Môr Cymru

Rhagor o fanylion

- Cynhaliwyd cynhadledd Ynni Morol Cymru 2025 yng Nghaerdydd, sef digwyddiad ynni morol mwyaf y DU. Croesawodd y gynhadledd dros 250 o gynrychiolwyr a oedd yn cynrychioli mwy na 25 o arddangoswyr ar draws meysydd diwydiant, polisi, ymchwil a'r gadwyn gyflenwi.
- Cafodd bwi tonnau ei ddefnyddio ar safle profi ynni'r tonnau yn East Pickard Bay, gan ddarparu data byw parhaus o amodau tonnau Sir Benfro. Mae'r data hwn yn cefnogi datblygwyr technoleg ac mae'n hygyrch i'r cyhoedd trwy wefan Ardal Profi Ynni'r Môr.
- Cafodd 20 tunnell o haenau amddiffynnol arloesol eu digomisiynu'n llwyddiannus ar ôl 18 mis o brofion ym East Pickard Bay.
- Roedd CGEN Engineering, gyda chefnogaeth Prifysgol Abertawe, wedi profi ei generadur electromagnetig modiwlaidd ar safle profi ynni'r llanw yn Warrior Way. Mae'r dechnoleg yn cynnig datrysiad ysgafn, modiwlaidd sy'n gallu lleihau costau ynni hyd at 30%.
- Defnyddiodd Gul Corp Ltd ei ddyfais ynni llanw yn Warrior Way, gan fireinio'r dechnoleg i gyd-fynd â defnydd masnachol.



Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2026/27

- **Seilwaith Doc Penfro:** Sicrhau contract gyda Tidal Technologies ar gyfer defnyddio'r llithrfa, gan gefnogi cynlluniau i adeiladu eu dyfais ynni ffrwd lanw gyntaf ar raddfa lawn yn Noc Penfro.
- **Parth Arddangos Sir Benfro:** Celtic Sea Power i sefydlu'r gofynion allweddol/sydd wedi'u diweddaru ar gyfer profi'r elfennau olaf yn unol â chynllun Twf Diwydiannol Gwynt ar y Môr y DU, er mwyn galluogi gweithgareddau yn y Môr Celtaidd i symud ymlaen.
- **Ardal Profi Ynni'r Môr:** Rhoi ar waith, profi a dilysu rhwng tair a phump o dechnolegau ynni morol newydd, gan hyrwyddo'r atebion technegol sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno ynni morol yn llwyddiannus ar raddfa ddiwydiannol.
- **Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol:** Cwblhau prosiect Cymorth Arloesi Hyblyg SMART a ariennir gan Lywodraeth Cymru gyda Tata Steel. Bydd allbynnau'r prosiect yn pennu dichonoldeb defnyddio dur Tata i gynhyrchu tyrau gwynt a bydd hyn yn llywio ceisiadau yn y dyfodol i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r farchnad.

FFOCWS AR...

Y Prosiect Seinwedd Tanfor

Roedd y prosiect Seinwedd Tanfor yn garreg filltir arwyddocaol mewn ymchwil forol ranbarthol, gan lansio dull arloesol o ddeall sain tanddwr yn y Môr Celtaidd. Wedi'i ariannu gan Ystâd y Goron ac mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerwysg a Chanolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol, ei nod yw cefnogi asesiadau amgylcheddol yn y dyfodol ar gyfer datblygiadau gwynt arnofiol ar y môr yn y rhanbarth.

> “Ar y cyfan, mae'r prosiect yn cael ei ystyried yn fuddiol iawn i Gymru, gyda photensial cryf i fynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth allweddol - yn enwedig o ystyried bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth acwstig hyd yma wedi canolbwyntio ar Fôr y Gogledd. Mae'n ategu mentrau ar raddfa lai fel Arolwg Mamaliaid Morol Acwstig Cymru CNC gyda CEFAS a Phrifysgol Bangor; a gyda'i gilydd, mae'r ymdrechion hyn yn tynnu sylw at sut y gallai datblygiadau S3 ar raddfa fawr yn y Môr Celtaidd gynnwys ardaloedd datblygu adnewyddadwy arfordirol ac ar y môr yng Nghymru, yn enwedig os cânt eu hymestyn trwy fonitro tymor hir.”
>
> **Nicholas Flores-Martin**
> **Arbenigwr Mamaliaid Morol**
> **a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**

ACafodd yr holl hydroffonau eu defnyddio'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, a chafodd y rownd gyntaf o gasglu data ei chwblhau. Mae'r hydroffonau yn rhwydwaith o orsafoedd monitro acwstig ar wely'r môr sy'n casglu data parhaus ar sŵn tanddwr naturiol a sŵn a gynhyrchir gan bobl. Mae hyn yn cynrychioli cam pwysig wrth adeiladu'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i gydbwyso datblygu ynni adnewyddadwy gyda diogelu'r amgylchedd morol.

Wrth wraidd y prosiect hwn mae creu "map sain" tanddwr rhanbarthol. Trwy gofnodi a dadansoddi sŵn tanddwr yn barhaus, bydd y prosiect yn gwella dealltwriaeth o ecosystemau morol a gweithgarwch dynol, gan ddarparu data cadarn, hirdymor i lywio caniatâd, cynllunio a monitro amgylcheddol ar gyfer prosiectau ynni ar y môr.

Mae'r prosiect Seinwedd Tanfor yn dangos sut y gall cydweithio rhwng y byd academaidd, rhaglenni arloesi, a diwydiant ddarparu ymchwil rhanbarthol sylweddol sy'n cefnogi twf cynaliadwy yn y Môr Celtaidd.



Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel

Bydd y rhaglen hon yn darparu wyth prosiect rhyng-gysylltiedig sy'n cefnogi creu swyddi a thwf economaidd ar draws y sectorau technoleg ac arloesi carbon isel. **Rhagor o fanylion.**

Sganiwch os gwelwch yn dda



£85.1m	Buddsoddiad
£53m	Y Fargen Ddinesig
£27.2m	Sector Cyhoeddus
£4.9m	Sector Preifat

Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar

Bydd y rhaglen yn Abertawe yn darparu:

- **1,320** o swyddi
- **18,500m²** o arwynebedd llawr ar gyfer y sector ynni isel
- Cronfa Datblygu Eiddo gwerth **£10m** (£4.5m gan y Fargen Ddinesig a rhagwelir £5.5m o'r sector preifat)
- **45** o gyfraniadau menter at ymchwil a gefnogir
- **4** patent wedi'u cofrestru ar gyfer cynhyrchion
- **£93m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

Cyngor Castell-nedd Port Talbot / Neath Port Talbot Council · Swansea University Prifysgol Abertawe · University of South Wales Prifysgol De Cymru · Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop European Regional Development Fund

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Cyflawniadau dros y 12 mis diwethaf

Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe

Rhagor o fanylion

- Mae'r raddfa feddiannaeth yn 81%, gyda thri thenant posibl arall yn symud ymlaen yn gadarnhaol i feddiannu'r gofod sy'n weddill.
- Parhaodd y Swyddfa Bartneriaeth Strategol i gael ei defnyddio'n dda gan brosiectau strategol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gan gynyddu rhyngweithio â thenantiaid presennol a darparu mannau gweithio achlysurol hyblyg.

Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru (SWITCH)

Rhagor o fanylion

- Mae SWITCH yn gyfleuster pwrpasol gydag offer arbenigol i gefnogi'r diwydiant dur a metelau a'r gadwyn gyflenwi i wella cystadleugarwch trwy gynyddu gallu cynnyrch a lleihau allyriadau carbon i fodloni gofynion deddfwriaethol.
- Cyrhaeddodd Morgan Sindall Construction ar safle Glan yr Harbwr, Port Talbot, gan ddechrau adeiladu'r cyfleuster ymchwil gwerth £28m mewn cydweithrediad â Phrifysgol Abertawe. **Darllenwch yr Astudiaeth Achos yn 'Ffocws ar...'**
- Mae datblygiadau dylunio cam 4 RIBA yn mynd rhagddynt gyda Morgan Sindall Construction gyda phecynnau tendrau wedi'u cwblhau a'u cyhoeddi.
- Cytunwyd ar Benawdau'r Telerau a chytundeb prydles a'u llofnodi gan Brifysgol Abertawe a Chyngor Castell-nedd Porth Talbot.
- Cwblhaodd Prifysgol Abertawe y ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol, gan gynnwys y Cytundeb Cyllido Grant.
- Rhannwyd cynllun cyfathrebu ynghylch y cyfnod adeiladu gyda rhanddeiliaid a chynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd.



Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch a'r Ganolfan Ragoriaeth Sgiliau Sero Net Genedlaethol

Rhagor o fanylion

- Cwblhawyd y gwaith o gaffael tir ym Mhort Talbot, a pharhaodd y gwaith ymchwilio i'r safle.
- Parhaodd trafodaethau gweithredol gyda'r byd academaidd, diwydiant a rhanddeiliaid allweddol ynghylch modelau cyflenwi a gweithredu.
- Sicrhaodd cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd â Llywodraeth Cymru aliniad â pholisi cenedlaethol.
- Roedd gweithgarwch ymgysylltu gyda rhanddeiliaid, mapio a chwmpasu wedi parhau.

Cronfa Datblygu Eiddo

Rhagor o fanylion

- Roedd y gronfa wedi'i gordanysgrifio, gyda nifer o geisiadau gan ddatblygwyr.
- Dyrannwyd tua £3.25m o gyllid, ychydig yn llai na'r disgwyl wrth i un ymgeisydd dynnu'n ôl ac un arall leihau ei brosiect. Mae prosiect arall yn gofyn am lefel uwch o gyllid, a fydd yn cynyddu'r dyraniad cyffredinol os caiff ei gymeradwyo. Os nad yw'r prosiect hwn yn mynd rhagddo, cynhelir trydydd galwad am geisiadau ar gyfer y cyllid. Sicrhawyd £3.1 miliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat ac yn ystod 2024/25, sicrhaodd prosiectau Gronfa Datblygu Eiddo £1 miliwn o fuddsoddiad preifat.
- Canlyniadau rownd un:
  - Dau brosiect wedi'u cwblhau, gyda chwmnïau ynni gwyrdd yn ymgymryd ag unedau.
  - Mae trydydd prosiect wedi'i gwblhau, gyda'r cwmni ar fin symud i feddiannu
  - Mae pedwerydd cais yn symud ymlaen, a disgwylir y bydd yn cael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2026.
  - Mae tua 48 o swyddi wedi'u creu a 26 wedi'u diogelu.
- Rownd Dau: Gwahoddwyd dau gais i gyflwyno cynigion cam 2, gyda thrydydd prosiect wedi'i roi ar y rhestr wrth gefn.

Prosiect Ysgogi Hydrogen

Rhagor o fanylion

- Cafwyd trafodaethau manwl i drosglwyddo data byw rhwng Canolfan Dechnoleg y Bae a Chanolfan Hydrogen Prifysgol De Cymru ym Mharc Ynni Baglan. Bydd hyn yn galluogi integreiddio gweithredol rheoledig rhwng systemau monitro ynni a chynhyrchu hydrogen electrolytig. Mae gwaith caffael yr offer bron â chwblhau, gyda dyfarniad contract.
- Parhaodd y gwaith paratoi ar gyfer gosod electroleiddiwr newydd, gan gynnwys asesiad cydymffurfiaeth rheoleiddiol.
- Roedd gwaith ar y cyd â Wales & West Utilities wedi archwilio'r defnydd o'r Ganolfan Hydrogen fel safle arddangos ar gyfer technolegau gwresogi hydrogen, gan helpu i ddenu buddsoddiad pellach.
- Archwiliodd Prifysgol De Cymru a Thîm Rheoli Fflyd Cyngor Castell-nedd Port Talbot opsiynau ar gyfer cerbydau hydrogen. Nodwyd bod y seilwaith ail-lenwi yn gyfyngedig, yn ogystal â dewisiadau amgen cystadleuol cynyddol o ran cerbydau trydan.
- Darparwyd cefnogaeth barhaus i ddenu buddsoddiad sy'n gysylltiedig â hydrogen, gan gynnwys datblygu electroleiddiwr Pioneer 2 Protium ym Mharc Ynni Baglan, gan adeiladu ar lwyddiant Pioneer 1 mewn cydweithrediad â Phrifysgol De Cymru.

Prosiect Monitro Ansawdd Aer

Rhagor o fanylion

- Cwblhawyd y prosiect, gyda monitro parhaus yn parhau tan haf 2026. Mae gwerthusiad o ganlyniadau'r prosiect yn cael ei ddatblygu.

Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan Allyriadau Isel

Rhagor o fanylion

- Cyflwynwyd cyfres o dreialon gwefru cerbydau trydan ar draws Castell Nedd Port Talbot, gan gynnwys treialon gwefru ar y stryd ac ar draws y stryd drwy ddefnyddio cwter. Aeth trafodaethau ymlaen i alinio treialon â phrosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae cartrefi wedi'u hôl-osod gyda thechnolegau adnewyddadwy.
- Archwiliwyd opsiynau ar gyfer mannau gwefru cyflym a gwefrwyr cerbydau trydan wedi'u gosod ar bostyn lamp.
- Aeth cynnig ymlaen i gyflymu cyflwyno Hwb Gwefru Cymunedol yng nghymunedau'r cymoedd, gan gynnwys rhannu cerbydau trydan cymunedol, gwasanaethau trafnidiaeth trydan cymunedol a storio e-feiciau.
- Dechreuodd prosiect peilot gyda Chynghorau Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe, gan ganolbwyntio ar rannu seilwaith gwefru cerbydau cyhoeddus a cherbydau fflyd. Mae'r peilot yn parhau.

Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2026/27

- **Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe:** Parhau i farchnata'r cyfleuster i ddatblygu'r clwstwr Ymchwil, Datblygu ac Arloesi o fusnesau yn y cyfleuster.
- **Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru:** Cynnal digwyddiad ffurfiol i dorri'r dywarchen gyntaf a dechrau adeiladu ar y safle yn haf 2026.
- **Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch / Canolfan Ragoriaeth Sgiliau Sero Net Genedlaethol:** Datblygu cwmpas manwl a model gweithredu sy'n cyd-fynd â'r ecosystem arloesi ranbarthol.
- **Cronfa Datblygu Eiddo:** Cwblhau prosiectau Rownd 1 a symud ymlaen at geisiadau Rownd 2.
- **Rhaglen Ysgogiad Hydrogen:** Datblygu achos busnes cadarn ar gyfer cerbydau hydrogen.
- **PROSIECT MONITRO ANSAWDD AER:** Cynhyrchu adroddiad diwedd y prosiect a pharhau i fonitro gweithgaredd.
- **Seilwaith gwefru cerbydau trydan ysgafn:** Parhau â gwaith cydlynu rhanbarthol, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu sy'n gysylltiedig â cherbydau trydan ysgafn, datblygu astudiaeth achos ar gyfer gwefru ar y stryd.

FFOCWS AR...

Gwaith adeiladu yn dechrau ar ganolfan ymchwil SWITCH

Ym mis Mawrth 2026, dechreuodd Morgan Sindall Construction weithio ar Ganolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru – (SWITCH) gwerth £28m - cyfleuster ymchwil nodedig wedi'i leoli yn ardal Glan yr Harbwr ym Mhort Talbot. Mae'r prosiect yn adeiladu ar lwyddiant diweddar Morgan Sindall yn cyflawni Canolfan Dechnoleg y Bae sydd wedi ennill nifer o wobrau ac sy'n bositif o ran ynni ac unwaith eto yn rhoi dylunio, arloesi cynaliadwy ac adeiladu wrth wraidd y gwaith.

Mae De Cymru yn gartref i un o glystyrau diwydiannol mwyaf carbon-ddwys y DU. Mae datgarboneiddio'r sector dur a metelau yn hanfodol ar gyfer cyrraedd targedau sero net a hefyd sicrhau gwytnwch economaidd hirdymor y rhanbarth.

Bydd SWITCH yn ganolfan ymchwil y genhedlaeth nesaf sydd wedi'i chynllunio i gyflymu datgarboneiddio diwydiannol a chefnogi'r trawsnewidiad i economi gylchol. Bydd y cyfleuster yn ymgorffori technolegau ynni cynaliadwy uwch, gan gynnwys cynhyrchu solar ar y safle, a bydd yn cael ei adeiladu i ddileu'r defnydd o danwydd ffosil. Mae'r dull hwn yn cefnogi'n uniongyrchol strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy Cyngor Castell-nedd Port Talbot.

Pan fydd yn gwbl weithredol, bydd y ganolfan yn darparu ar gyfer hyd at 95 o bobl ac yn cefnogi cydweithredu ar draws y byd academaidd, diwydiant a'r llywodraeth. Bydd yr adeilad yn cynnwys cyfleusterau gweithdy a weldio, parthau profi mecanyddol arbenigol, labordai a gofod swyddfa modern, i gyd wedi'u pweru gan ynni glân, adnewyddadwy a gynhyrchir ar y safle.



Dan arweiniad Cyngor Castell-nedd Port Talbot mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, cefnogir y prosiect gan £8.2 miliwn o Gronfa Bontio TATA Llywodraeth y DU, sy'n nodi carreg filltir arwyddocaol yn nhaith De Cymru tuag at ddyfodol diwydiannol glanach a gwyrddach.

> Rydyn ni'n falch iawn o weld gwaith yn dechrau ar safle SWITCH wrth i'r Cyngor barhau i ganolbwyntio ar greu amgylcheddau gwaith cynaliadwy a darparu swyddi a chyfleoedd newydd i'n cymunedau.
>
> Edrychwn ymlaen at weld y datblygiad arloesol hwn yn symud ymlaen ac yn diolch i'n partneriaid ym Mhrifysgol Abertawe am eu cefnogaeth wrth symud y prosiect hwn ymlaen, ochr yn ochr â Morgan Sindall Construction a Llywodraeth y DU am eu cefnogaeth barhaus.
>
> **Dywedodd Jeremy Hurley, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Thwf Economaidd, Cyngor Castell-nedd Port Talbot**

> Mae SWITCH Glan yr Harbwr yn ymwneud â darparu'r atebion ymarferol sydd eu hangen ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol. Bydd ein harbenigedd ymchwil yn helpu'r sector dur a metelau i ddatblygu'r technolegau a'r prosesau sydd eu hangen i drosglwyddo i sero net, gan gryfhau cadwyni cyflenwi rhanbarthol a sicrhau safle De Cymru wrth wraidd yr economi werdd.
>
> **Yr Athro Siwan Davies**
> **Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi, Prifysgol Abertawe**

Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau

Sganiwch os gwelwch yn dda

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ysgogi twf economaidd yn Abertawe drwy bum elfen allweddol – Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe, y datblygiad gwesty, a lle i fusnesau dyfu yn 71/72 Ffordd y Brenin, y Matrics Arloesi a'r Rhodfa Arloesi. **Rhagor o fanylion.**



£178.3m	Buddsoddiad
£50m	Y Fargen Ddinesig
£93.2m	Sector Cyhoeddus
£35.2m	Sector Preifat

Cyflymu'r Economi

Bydd y rhaglen yn Abertawe yn darparu:

- **1,281** o swyddi
- Cyfleuster **10,684m²** ar gyfer busnesau sy'n canolbwyntio ar y maes digidol
- Dros **50** o gyfleoedd a gofodau i fusnesau newydd gan raddedigion
- Dros **10,000** o wythnosau hyfforddi ar y gwaith adeiladu yn Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe, 71/72 Ffordd y Brenin a'r Matrics Arloesi
- **£669.8m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

Cyngor Abertawe Swansea Council

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop European Regional Development Fund

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Cyflawniadau dros y 12 mis diwethaf

Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe a gwesty

- **Digwyddiadau:** Mae mwy na miliwn o ymwelwyr wedi mynychu'r Arena ers iddi agor ym mis Mawrth 2022. Mae'r uchafbwyntiau dros y 12 mis diwethaf wedi cynnwys:
  - Perfformiadau sydd wedi gwerthu allan gan gynnwys John Bishop, Bob Dylan, Manic Street Preachers, Miriam Margolyes, The Fast Show, Guenther Steiner a Greg Davies.
  - Digwyddiadau, gan gynnwys Gwobrau Plant Cymru, digwyddiad codi arian Sioe Fawr Nadolig Maggie a chynhadledd "It's Your Swansea" 4theRegion am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.
  - Y gynulleidfa fwyaf ar gyfer un cynhyrchiad ers agor, gyda 30,000 o bobl yn mynychu Mamma Mia! The Musical dros bythefnos ym mis Ionawr 2026.
  - Gweithgareddau dysgu creadigol, gweithdai a theithiau ar gyfer 2,975 o fynychwyr a digwyddiadau dysgu creadigol ar gyfer 1,300 o fynychwyr.
- Parhawyd gyda'r partner â hawl i roi ei enw ar yr arena, sef Cymdeithas Adeiladu Abertawe a gyda Peter Lynn & Partners fel y Noddwr Dysgu Creadigol.
- Cytunwyd ar Benawdau Telerau mewn egwyddor gyda'r datblygwr gwesty, yn amodol ar gadarnhau'r telerau cyllido a diwydrwydd dyladwy.

71/72 Ffordd y Brenin

- **Agoriad Swyddogol:** Cafwyd dathliad i nodi agoriad swyddogol yr adeilad, a fynychwyd gan swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid, sefydliadau partner, y tîm adeiladu a thenantiaid. **Darllenwch yr Astudiaeth Achos yn 'Ffocws ar.**
- **Tenantiaeth:** Mae dros 80% o'r gofod swyddfa yn yr adeilad wedi'i osod i denantiaid, gyda thrafodaethau parhaus ar gyfer y gofod sy'n weddill. Mae'r tenantiaid yn cynnwys:
  - TUI UK, cwmni twristiaeth a theithio blaenllaw yn y DU, sy'n meddiannu 650 metr sgwâr ar yr ail lawr ar gyfer canolfan gyswllt.
  - Veeqo, cwmni technoleg newydd Cymreig sy'n eiddo i Amazon, sy'n meddiannu 1,200 metr sgwâr ar y pedwerydd llawr ar gyfer ei bencadlys newydd. Mae'r cwmni'n cefnogi dros 100,000 o fusnesau ledled y byd ac mae wedi tyfu o 60 o weithwyr i 200 mewn tair blynedd yn unig. Mae Veeqo yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, gan gefnogi 16 o brentisiaid a 10 o raddedigon, gan helpu i gadw sgiliau a swyddi digidol gwerth uchel yng Nghymru.
  - Mae Futures First, sy'n rhan o'r Hertshten Group, wedi meddiannu 400 metr sgwâr ar yr ail lawr ac yn darparu dadansoddiad o'r farchnad ar gynhyrchion deilliadol fel nwyddau, ecwiti, ac ynni.
  - Mae Optical Express a'r brand partner sk:n, wedi symud i mewn i uned fanwerthu ar y llawr gwaelod sy'n 114 metr sgwâr, gan gynnig triniaethau cywiro golwg, dermatoleg a thriniaethau esthetig.
  - Mae IWG, darparwr gweithle hyblyg byd-eang, wedi cwblhau ei gytundeb prydles ac wedi dechrau ar y gwaith gosod sy'n tua 1,858m^2.
  - Cwblhawyd gwaith marchnata i ddenu gweithredwr coffi ar gyfer y llawr gwaelod, a gefnogwyd gyda llyfryn marchnata pwrpasol.
- Parhaodd cwmni Savills fel asiant rheoli, yn cydgysylltu'r gwaith gosod ar gyfer tenantiaid ac adleoli ei staff i'r adeilad.
- Dechreuodd y gwaith ar Iard Mowbray, y man cyhoeddus awyr agored newydd ger Ffordd y Brenin.

Matrics Arloesi

- Mae'r adeilad yn parhau i fod wedi'i feddiannu'n llawn, gyda thenantiaid yn cynnwys Kaydia Medical, ATiC, BroadReach Integrity, PURUS a Rockfield
- Mae Bwrdd Rheoli Tenantiaid wedi'i sefydlu i sicrhau cydymffurfiaeth ag ymrwymiadau'r brydles ac ymgysylltu academaidd.
- Dros y flwyddyn, mae'r prosiect wedi:
  - Cynyddu ymgysylltiad â busnesau bach a chanolig, diwydiant a phartneriaid yn y sector cyhoeddus
  - Cysylltu busnesau ag arbenigedd academaidd i gefnogi arloesedd
  - Darparu hyfforddiant sgiliau mewn digidol, gweithgynhyrchu a chynaliadwyedd
  - Cefnogi busnesau newydd trwy feithrin, mentora, a chael mynediad at gyllid
  - Mabwysiadu AI, awtomeiddio a data dadansoddol.
  - Arferion uwch o ran sero net, effeithlonrwydd ynni, ac economi gylchol.
  - Gwneud y defnydd mwyaf posibl o gyfleusterau ar gyfer cydweithredu a digwyddiadau
  - Gwella enw da Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant fel partner arloesi blaenllaw yng Nghymru.

Rhodfa Arloesi

- Mae'r Brifysgol yn parhau i archwilio dulliau cyflawni amgen a phartneriaethau strategol fel rhan o'r broses rheoli newid.

Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2026/27

Arena Abertawe a'r gwesty

- Parhau i gynnal amserlen o raglenni gyda dros 200 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, sy'n cynnwys UB40, Jools Holland, David Essex, Russell Howard a'r Proclaimers.
- Disgwylir y bydd wedi croesawu 1,250,000 o ymwelwyr ers agor.
- Cwblhau'r cytundeb gyda datblygwr y gwesty.

71/72 Ffordd y Brenin

- Cwblhau'r gwaith gosod mewnol ar gyfer IWG, a fydd yn dechrau gweithredu yn Haf 2026.
- Sicrhau bod swyddfeydd a'r gofod masnachol sy'n weddill yn cael eu gosod.
- Cwblhau gwaith ar ardaloedd cyhoeddus yr adeilad, gan gynnwys yr ardd allanol sef Iard Mowbray ac agor yn ystod Haf 2026.

Rhodfa Arloesi

- Parhau i drafod gyda phartneriaid ynghylch datblygu model cyflwyno sy'n briodol i'r farchnad.

Matrics Arloesi

- Cryfhau'r Matrics fel canolbwynt ar gyfer cydweithio rhwng busnesau, y byd academaidd, myfyrwyr a phartneriaid yn y sector cyhoeddus.
- Cefnogi arloesi, ymchwil a masnacheiddio trwy gysylltu sefydliadau ag arbenigedd, cyfleusterau a rhwydweithiau prifysgolion.
- Ehangu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â myfyrwyr, mentrau ar gyfer graddedigion a datblygu sgiliau trwy integreiddio'n agosach â meddianwyr a gweithgareddau.
- Cefnogi twf busnes, busnesau newydd a busnesau sy'n ehangu trwy feithrin, mentora, darparu cymorth arloesi a mynediad at gyfleoedd cyllid.
- Meithrin prosiectau cydweithredol sy'n cyflymu mabwysiadu technolegau digidol, deallusrwydd artiffisial, awtomeiddio ac arloesi sy'n cael ei yrru gan ddata.
- Sicrhau a chyflawni prosiectau arloesi a phrosiectau cyfnewid gwybodaeth a ariennir yn allanol sy'n cynhyrchu effaith economaidd ranbarthol.
- Hyrwyddo arloesedd cynaliadwy trwy gefnogi uchelgeisiau sero net, effeithlonrwydd adnoddau ac arferion busnes cyfrifol.
- Gwneud y defnydd mwyaf o'r Matrics Arloesi fel ecosystem arloesi ddeinamig, gan gefnogi cydweithredu, digwyddiadau, cyfnewid gwybodaeth ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Adeiladu ar argymhellion yr Asesiad Effaith Economaidd i gryfhau canlyniadau economaidd, addysgol ac arloesi hirdymor ymhellach.



FFOCWS AR...

Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe yn dathlu carreg filltir allweddol

Ym mis Mawrth 2025, cyrhaeddodd Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe garreg filltir sylweddol, gan groesawu dros **filiwn o ymweliadau** ers agor ei drysau ym mis Mawrth 2022. Mae'r llwyddiant hwn yn tynnu sylw at rôl gynyddol y lleoliad fel cyrchfan bwysig ar gyfer adloniant byw, cynadleddau a digwyddiadau yn Ne Cymru.

Wedi'i datblygu gan Gyngor Abertawe fe'i gweithredir gan ATG Entertainment, mae'r Arena yn rhan allweddol o gynllun adfywio Bae Copr, sydd hefyd yn cynnwys Parc Amy Dilwyn a'r bont dros Heol Ystumllwynarth.

Ymhlith yr uchafbwyntiau hyd yma mae perfformiadau gan The Manic Street Preachers, Bob Dylan a Wet Wet Wet, sioeau comedi gan John Bishop, a chynyrchiadau teithiol mawr fel Riverdance a Mamma Mia!

Ymweld ag Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe

> Mae cyrraedd miliwn o ymwelwyr yn foment fawr i'r Arena ac mae'n adlewyrchu'r ystod eang o ddigwyddiadau sydd wedi eu cynnal yma ers agor. Rydyn ni wedi croesawu cynulleidfaoedd ar gyfer cerddoriaeth fyw, comedi, theatr, cynadleddau, gwleddoedd a seremonïau graddio, yn ogystal â gweithgareddau dysgu creadigol a digwyddiadau cymunedol.
>
> Gyda rhaglen gyffrous o sioeau a digwyddiadau wedi'u cynllunio dros y misoedd nesaf a'r flwyddyn nesaf, rydyn ni'n edrych ymlaen at groesawu llawer mwy o ymwelwyr trwy ein drysau.
>
> **Matt Blackhouse, Cyfarwyddwr Lleoliad Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe**



FFOCWS AR...

Kaydiar – Arloesi ar Waith

Mae Kaydiar, a sefydlwyd gan David Barton a Heather Smart, yn enghraifft o sut mae'r Matrics Arloesi yn gyrru twf trwy gysylltu busnes ag arbenigedd academaidd. Gan ddechrau fel busnes newydd gan raddedigion, datblygodd y cwmni ei gynnyrch arobryn ZeroSole, sef mewnwadn sy'n addas i'w ddefnyddio ym maes iechyd y gellir ei addasu, gyda chefnogaeth y Ganolfan Gweithgynhyrchu Arloesol ac Arbrofol a Chanolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol (ATiC) Prifysgol y Drindod Dewi Sant.

Trwy fynediad at gyfleusterau gweithgynhyrchu uwch, profion arbenigol a chyllid Innovate UK, cyflymodd y cydweithrediad hwn y gwaith datblygu a masnacheiddio'r cynnyrch. Roedd hyn hefyd yn dangos rôl y Matrics Arloesi wrth alluogi arloesedd a sicrhau prosiectau ymchwil a datblygu.

Bellach wedi'i leoli o fewn y Matrics Arloesi, mae Kaydiar yn parhau i elwa ar gymorth meithrin, mentora a datblygu sgiliau. Mae interniaethau myfyrwyr wedi cryfhau gallu digidol a marchnata'r cwmni, wrth i'r cydweithrediad parhaus gefnogi datblygu cynnyrch newydd o ran technoleg wisgadwy. Gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at dwf rhanbarthol, cynhyrchiant a chreu swyddi, gan dynnu sylw at rôl Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant fel partner arloesi blaenllaw yng Nghymru.

> “Yn fy mhrofiad i, mae'r Drindod Dewi Sant yn unigryw, rwyf wedi siarad â llawer o fusnesau newydd mewn digwyddiadau diwydiant a seremonïau gwobrwyo, ac nid wyf wedi clywed am gwmnïau sydd wedi derbyn yr amrywiaeth eang o ddisgyblaethau a lefel y gefnogaeth a gynigir ar Gampws y Glannau.”
>
> **David Barton, Cyd-sylfaenydd Kaydiar**



FFOCWS AR...

Cwblhau ac agor 71/72 Ffordd y Brenin, Abertawe

Agorwyd datblygiad newydd 71/72 Ffordd y Brenin yn Abertawe yn swyddogol ym mis Gorffennaf 2025, gan nodi cwblhau'r adeilad swyddfa saith llawr 9,660 metr sgwâr a adeiladwyd gan Bouygues UK. Roedd y seremoni, a gynhaliwyd gan y Cynghorydd Rob Stewart, wedi dwyn ynghyd gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan gynnwys y Prif Weinidog Eluned Morgan, y Fonesig Nia Griffith, Jayne Bryant a Julie James.

Roedd yr agoriad yn dilyn y cyfnod trosglwyddo ym mis Chwefror 2025, pan drosglwyddodd Bouygues UK yr adeilad yn ffurfiol i Gyngor Abertawe cyn i'r gwaith gosod mewnol ddechrau.

Ers ei gwblhau, mae mwy na 80% o'r adeilad wedi'i osod, gyda'r mwyafrif o denantiaid bellach yn eu lle, gan sefydlu 71/72 Ffordd Y Brenin fel canolbwynt pwysig ar gyfer economi ddigidol a thechnoleg gynyddol Abertawe.

> Fel cwmni rydyn ni am fod yn falch o'n lleoliad, a bydd yr adeilad hwn yn rhoi hynny i ni. Rydyn ni hefyd yn cael llawer o ymwelwyr yn dod i'n gweld ni - hyd yn oed o dramor - felly rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at ddangos ein gweithle.
>
> **Leah Cussons, TUI**

> Yr hyn sy'n wych am y lleoliad newydd yw ei fod yn ganolog. Mae hynny'n ddelfrydol ar gyfer ymwelwyr sy'n dod i mewn i'r swyddfa ac i gydweithwyr, gan ei bod yn llawer haws mynd allan yn ystod ein hegwyl ginio.
>
> **Tracy Tamplin, TUI**



FFOCWS AR...

Mae ein swyddfa estynedig yn Abertawe yn ein galluogi i barhau i ddatblygu gwasanaethau sy'n ei gwneud hi'n haws i entrepreneuriaid a busnesau werthu ledled y byd. Rwy'n falch ein bod yn parhau i greu swyddi technoleg medrus iawn yng Nghymru a bod ein cwmni sydd wedi'i sefydlu yma yn cael effaith fyd-eang.

Matt Warren, Prif Swyddog Gweithredol a sylfaenydd, Veeqo



Rydyn ni wrth ein bodd i fod yn rhan o ddatblygiad 71/72 Ffordd y Brenin. Mae'r cyfleuster o'r radd flaenaf hwn yn cyd-fynd yn berffaith â'n hymrwymiad i arloesi ac yn cynrychioli dyfodol busnes yn Abertawe.

Bydd seilwaith modern yr adeilad a'r lleoliad arbennig yn gwella cynhyrchiant ein tîm yn sylweddol wrth ddarparu gweithle cydweithredol sy'n cefnogi ein twf. Mae datblygiadau fel hyn yn dangos enw da cynyddol Abertawe fel canolfan ar gyfer busnesau blaengar.

Ryan Orton
Uwch Is-lywydd, Future First

Rydyn ni'n falch iawn o agor ein clinig newydd ar Ffordd y Brenin yn Abertawe. Mae'r gofod o'r radd flaenaf hwn sy'n ystyriol o'r amgylchedd yn cynnig lleoliad delfrydol i ddarparu gofal o'r radd flaenaf i'r gymuned leol.

Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau profiad arbennig i gleifion gyda chefnogaeth y dechnoleg ddiweddaraf, cyfleusterau modern, a thimau clinigol rhagorol.

Dr Stephen Hannan
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol, Optical Express a sk:n



Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio'n agos gyda Chyngor Abertawe i ddarparu'r gweithle gorau i'r gymuned fusnes yn Abertawe. Bydd brand IWG Spaces yn 71-72 Ffordd y Brenin yn ased mawr i fusnesau o bob maint, gan gynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf ochr yn ochr â mynediad i rwydwaith byd-eang o filoedd o weithfannau.

Wayne Berger, Prif Swyddog Gweithredol IWG yn y DU

Yr Egin

Mae Canolfan S4C Yr Egin yn ganolfan ddigidol a chreadigol yng Nghaerfyrddin. Mae'r ganolfan eiconig yn cynnwys awditoriwm, cysylltedd cyflym iawn, swyddfa o'r radd flaenaf a gweithfannau cyfleus ynghyd â chyfleusterau ôl-gynhyrchu i weithwyr proffesiynol creadigol a rhaglen amrywiol o hyfforddiant a gweithgareddau cymunedol. **Rhagor o fanylion.**

Sganiwch os gwelwch yn dda



£25.2m	Buddsoddiad
£5m	Y Fargen Ddinesig
£18.7m	Sector Cyhoeddus
£1.5m	Sector Preifat

Cyflymu'r Economi

Bydd Yr Egin yng Nghaerfyrddin yn darparu:

- **427** o swyddi
- **363m²** o le gweithio
- **150** o gyfleoedd sgiliau a hyfforddiant
- **167** o gyfleoedd cyflogaeth yn y gweithle adeiladu
- **£89.5m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cyflawniadau dros y 12 mis diwethaf

Cyfnod 1:

- **Yr Effaith Weithredol:** Yn weithredol yn swyddogol ers dros saith mlynedd, mae mwy na 50,000 o ymwelwyr wedi mynychu perfformiadau, gweithdai, dosbarthiadau meistr, y sinema a digwyddiadau byw ers agor ym mis Tachwedd 2018.
- **Tenantiaid:** Mae'r gofod swyddfa yn parhau i fod yn llawn, gyda deuddeg tenant o'r sector creadigol gan gynnwys y darlledwr Cymraeg S4C, Carlam, Rural Office, Stiwdiobox a Theatr Cymru.
- **Tenant newydd:** Croesawyd Telesgop, cwmni cynhyrchu amlgyfrwng, i'r ganolfan. **Darllenwch yr Astudiaeth Achos yn 'Ffocws ar..**'
- **Defnydd gan y Sector a Gwasanaethau Cyhoeddus:** Defnyddiwyd y cyfleusterau'n helaeth gan amrywiaeth o gwmnïau a sefydliadau gan gynnwys Heddlu Dyfed Powys, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Mudiad Meithrin, Partneriaethau Chwaraeon Gorllewin Cymru, Boom Cymru a Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Cymru (CITB).
- **Gweithgareddau darlledu a chynhyrchu:** Cynhyrchwyd nifer o raglenni a darllediadau yn y cyfleuster gan gynnwys Busnes Bwyd (Capten Jac), Newyddion y BBC am 6 a Newyddion y BBC am 10, Dadl Arweinwyr y Senedd ar S4C.
- **Digwyddiadau diwylliannol a chymunedol:** Cynhaliodd Yr Egin raglen o ddangosiadau sinema a pherfformiadau theatr byw gan Mewn Cymeriad, Theatr Bara Caws a Mercury Wales. Cynhaliodd y ganolfan hefyd sawl lansiad llyfrau a'r gystadleuaeth farddoni flynyddol Talwrn y Daffodil fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi Cyngor Tref Caerfyrddin.
- **Allgymorth cymunedol:** Cyflwynodd y rhaglen Allgymorth gymunedol, Sgwrsioe, sesiynau podlediad creadigol i bobl ifanc 16-25 oed ac fe'i hariannwyd gan Ymddiried – Media Grants Cymru.
- **Addysg ac Ymgysylltu: Cynhaliwyd ymgysylltiad parhaus** â darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol drwy weithdai a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, digwyddiadau gyrfa a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, a chydweithrediad â thîm Ehangu Mynediad Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Cam 2:

- Yn dilyn newidiadau i Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol, mae adolygiad ar y gweill i alinio buddsoddiad cyfalaf posibl â blaenoriaethau ariannol sefydliadol ehangach. Mae hyn wedi arwain at seibiant i ailasesu amserlen y prosiect ac atebion cyflawni posibl.

Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2026/27

- Cynllunio cynnydd ar gyfer Cyfnod 2.

Cyfnod 1:

- Parhau i fod yn gyrchfan o ansawdd uchel ac yn lle i gynnal cynadleddau a chyfarfodydd, gyda mwy o ddefnydd o gyfleusterau ac arbenigedd mewnol i ddarparu ffrydio byw o ansawdd uchel.
- Datblygu ymhellach y gymuned gynyddol o bobl sy'n defnyddio gweithfannau cyfleus sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cwmpas, Trywydd ac ystod o weithwyr llawrhydd.
- Parhau i gryfhau ei rôl fel canolfan ar gyfer digwyddiadau diwylliannol Cymraeg, gan gynnal perfformiadau theatr rheolaidd a lansiadau llyfrau.



- Parhau i ymgysylltu ag ysgolion a cholegau addysg bellach i ddarparu gweithdai a phrofiadau sy'n cyfoethogi'r Cwricwlwm i Gymru ac sy'n cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y llwybrau gyrfa sydd ar gael yn y diwydiannau creadigol.

FFOCWS AR...

Telesgop yn symud i'r Egin

Ym mis Mawrth 2026, symudodd Telesgop, cwmni cynhyrchu amlgyfrwng sy'n cyflogi 20 o staff, i'r Egin o Stiwdios y Bae yn Abertawe. Roedd symud i'r Egin yn diogelu swyddi creadigol o ansawdd uchel yn y rhanbarth ac yn cryfhau clwstwr diwydiannau creadigol cynyddol Sir Gaerfyrddin.

Mae gan Telesgop hanes cryf ym maes cynhyrchu teledu, radio a digidol. Mae portffolio'n cynnwys rhaglenni dogfen fel Gronyn Gobaith a Ryan Jones, rhaglenni ffeithiol arbenigol gan gynnwys Ffermio a Cneifio, a darllediadau o ddigwyddiadau diwylliannol mawr yng Nghymru fel Eisteddfod Clwb y Ffermwyr Ifanc (CFfI) a'r Ŵyl Cerdd Dant. Mae gan y cwmni enw da hirsefydlog ym myd radio hefyd, gan gynhyrchu mwy na 700 awr o gynnwys bob blwyddyn ar gyfer rhwydweithiau'r BBC, gan gynnwys BBC Radio Cymru, BBC Radio Wales a BBC Radio 2.

> Mae'n bleser gweld Telesgop yn ymuno â'r gymuned yng Nghanolfan S4C Yr Egin. Mae'r Egin yn dod â syniadau, pobl greadigol a chyfleoedd at ei gilydd, ac mae'n galonogol gweld cwmni profiadol fel Telesgop yn dewis sefydlu ei hun yma.
>
> Mae cefnogi talent a busnesau ledled Cymru gyfan yn hanfodol, ac mae Yr Egin yn datblygu i fod yn lle sy'n creu cyfleoedd gwirioneddol i gwmnïau fel Telesgop ffynnu.
>
> **Geraint Evans, Prif Weithredwr S4C**

> Mae gwreiddiau Telesgop yn ddwfn yng ngorllewin Cymru, ar ôl dechrau'r cwmni 33 mlynedd yn ôl yn Llandeilo, felly mae symud ein swyddfeydd i'r Egin yn gam naturiol a chyffrous i ni. Mae'r adeilad wedi dod yn ganolfan bwysig i'r diwydiannau creadigol, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at fod yn rhan o'r gymuned honno.
>
> I ni, mae symud yma yn fwy na newid swyddfa yn unig. Mae'n gyfle i weithio ochr yn ochr â chwmnïau creadigol eraill, S4C, a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, i ddatblygu syniadau newydd a pharhau i greu cynnwys o ansawdd uchel o orllewin Cymru.
>
> **Ffion Rees, Rheolwr Gyfarwyddwr Telesgop**



Diweddariad Ariannol

Amcangyfrifir mai sefyllfa fuddsoddi gyffredinol y portffolio yw **£1,458m** dros gylch bywyd 15 mlynedd y portffolio, fel y crynhowyd isod. Cyfanswm buddsoddiad Bargen Ddinesig Bae Abertawe o bob ffynhonnell oedd **£719.36m**, ac roedd **£233.63m** ohono yn fuddsoddiad sector preifat ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r amgylchedd economaidd yn parhau i gyflwyno heriau i gyflawni'r Portffolio. Mae ystod o ffactorau macroeconomaidd, gan gynnwys argaeledd adnoddau a chyfyngiadau recriwtio, anwadalrwydd prisiau ynni, costau adeiladu cynyddol, pwysau chwyddiant, effeithiau gwaddol pandemig COVID-19, a'r rhyfel parhaus yn yr Wcráin ac Iran. Mae pob un wedi cyfrannu at oedi'r gwaith cyflawni a mwy o bwysau cost dros y pum mlynedd diwethaf.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r holl brosiectau a rhaglenni yn mynd rhagddynt gyda'r holl bartneriaid yn dangos ymrwymiad llwyr i gyflawni mentrau Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn llwyddiannus.

Ym mlwyddyn ariannol 2025/26, buddsoddodd y Fargen Ddinesig **£133.43m** ar gynllunio, caffael, adeiladu a gweithgareddau gweithredol, gan gefnogi cyflawni ar draws mwyafrif y naw prosiect a rhaglen sy'n rhan o'r Portffolio. Disgwylir buddsoddiad pellach sylweddol drwy'r camau caffael ac adeiladu rhwng 2026-31.

Mae Swyddfa Rheoli Porffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn ymgymryd yn barhaus â monitro cadarn, lliniaru a datrys risgiau a phroblemau. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid ac adolygu amserlenni cyflawni a phroffiliau ariannol yn rheolaidd, gan alluogi dealltwriaeth glir o'r effaith y mae'r amgylchedd macroeconomaidd yn ei chael ar gyflawni'r Portffolio.

Yn 2025/26 derbyniodd y Fargen Ddinesig ddyfarniad cyllid pellach gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan ryddhau'r seithfed swm blynyddol o gyllid y Fargen Ddinesig. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o **£190.6m** wedi'i hawlio ers dechrau'r Portffolio. Mae'r cyllid diweddaraf a dderbyniwyd yn cynnwys grant carlam Llywodraeth y DU a fydd nawr yn cael ei ddyfarnu dros gyfnod o ddeng mlynedd, yn lle'r cyfnod gwreiddiol o bymtheg mlynedd.

Proffil Rhagolwg Buddsoddi Blynyddol

Rhaglen / Prosiectau	Union Ffigurau Cronnol (20 Maw 2017 - 31 Maw 2025)	Union Ffigurau Bl 8 2025-26	Amcan Bl 9 2026-27	Amcan Bl 10 2027-28	Amcan Bl 11 2028-29	Amcan Bl 12 2029-30	Amcan Bl 13 2030-31	Amcan Bl 14 2031-32	Amcan Bl 15 2032-33	Cyfanswm
	(£m)									
Seilwaith Digidol	**153.04**	7.50	13.78	2.76	-	-	-	-	-	177.08
Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer	**101.70**	83.10	141.93	191.88	-	-	-	-	-	518.61
Y Sefydliad Cenedlaethol dros Chwaraeon ac Iechyd	**3.12**	4.16	34.84	58.04	33.37	0.45	0.46	0.47	0.48	135.40
Ardal Forol Doc Penfro	**64.75**	3.33	2.05	0.21	-	-	-	-	-	70.35
Pentre Awel	**94.43**	8.72	5.35	35.08	47.53	-	27.50	-	-	218.60
Sgiliau a Thalentau	**7.72**	16.69	21.30	3.71	-	-	-	-	-	49.42
Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel	**12.23**	2.21	32.10	25.40	13.13	-	-	-	-	85.07
Glannau Abertawe	**133.58**	7.60	18.96	17.95	0.25	-	-	-	-	178.33
Yr Egin	**15.35**	0.12	4.34	4.70	0.12	0.12	0.12	0.12	0.18	25.17
Cyfanswm	**585.92**	**133.43**	**274.65**	**339.73**	**94.38**	**0.57**	**28.08**	**0.59**	**0.66**	**1,458.02**

> Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn chwarae rhan bwysig wrth gryfhau economi Cymru. Trwy fuddsoddi mewn seilwaith, arloesi a phobl mae'n helpu i greu Rhanbarth mwy gwydn a chystadleuol ar gyfer y dyfodol.
>
> **Anna McMorrin Aelod Seneddol**
> **Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru**

Ymgysylltu â Busnes

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ymgysylltu â busnesau ar draws Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi canolbwyntio ar gryfhau partneriaethau, alinio buddsoddiad gyda'r galw yn y diwydiant, ac ymgorffori mewnwelediad busnes i gyflawni prosiectau. Wrth i ragor o brosiectau symud o'r cam cynllunio i gyflawni a gweithredu, mae cydweithredu â'r sector preifat wedi parhau i fod yn ganolog i wneud y mwyaf o'r effaith economaidd hirdymor.

Sicrhau buddsoddiad y sector preifat

Mae sicrhau buddsoddiad yn y sector preifat yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol graidd. Hyd yn hyn, mae **£233.6m** o gyfraniad y sector preifat wedi'i sicrhau ar draws y Portffolio, sy'n adlewyrchu hyder cynyddol yn y Fargen Ddinesig a photensial hirdymor y rhanbarth.

Dros oes y Portffolio, rhagwelir y bydd cyfanswm cyfraniad y sector preifat yn cyrraedd **£772.4m**, sydd gryn dipyn yn uwch na'r targed gwreiddiol o **£637m**. Mae'r perfformiad hwn yn dangos y rôl ganolog y mae buddsoddiad cyhoeddus yn ei chwarae wrth ddatgloi buddsoddiad o'r sector preifat. **Darllenwch yr Astudiaeth Achos yn 'Ffocws ar..**'

Ymgysylltu â Busnesau

Parhaodd gweithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu yn ystod 2024/25 i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd y Fargen Ddinesig yn sicrhau bod y diddordeb yn trawsnewid i fod yn gyfranogiad ystyrlon:

- Cyflawnwyd tua **41,900* o ryngweithiadau busnes** trwy gyfathrebiadau a digwyddiadau.

* Yn cynrychioli rhyngweithiadau ymgysylltu nid busnesau unigryw. Gall gynnwys ymgysylltiadau niferus neu ffyrdd gwahanol o gysylltu.

- Cynhaliwyd **1,544** o drafodaethau dilynol, sy'n cynrychioli cyfradd ymgysylltu o oddeutu **3.7%**, sy'n ganran da ar gyfer mentrau economaidd sy'n seiliedig ar leoedd.
- Roedd **34%** o fusnesau y cafwyd ymgysylltiad â nhw wedi symud ymlaen i fod yn brosiectau gweithredol, gan ragori ar feincnodau nodweddiadol o 10–20%.

Mae'r cyfraddau trawsnewid hyn yn tynnu sylw at dargedu effeithiol, rheoli perthnasoedd yn gadarn ac aliniad clir ag anghenion busnes.

Er mwyn cefnogi cysondeb ac arfer gorau, cyflwynwyd gweithdy cyfathrebu, marchnata ac ymgysylltu â busnesau ar draws y portffolio, gan ddod â thimau rhaglenni a thimau prosiectau at ei gilydd i rannu dysgu a chryfhau dulliau ymgysylltu yn y dyfodol.

Effaith ar y Gadwyn Gyflenwi

Mae gweithgarwch y Fargen Ddinesig yn parhau i gynhyrchu manteision sylweddol i gadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol ar draws y cyfnodau adeiladu a gweithredol. Hyd yn hyn:

Mae **£13.5m** o gontractau wedi'u dyfarnu i fusnesau rhanbarthol.

Mae **£110m** arall wedi'i sicrhau gan gwmnïau yng Nghymru, gan gynnwys cwmnïau micro, busnesau bach a chanolig a chwmnïau mawr.

Mae'r gweithgarwch hwn yn cefnogi creu swyddi, datblygu sgiliau, cydweithio a thwf busnes hirdymor ledled de-orllewin Cymru.



FFOCWS AR...

Cefnogi Twf Busnesau Bach Trwy Nawdd Strategol

Ym mis Medi, y Fargen Ddinesig oedd prif noddwr Cynhadledd Busnesau Bach De Cymru y Ffederasiwn Busnesau Bach, gan gryfhau'r ymgysylltiad â chymuned busnesau bach a chanolig y rhanbarth a'r gymuned entrepreneuraidd.

Cynhaliwyd y digwyddiad yn y stadiwm Swansea.com a daeth perchnogion a rheolwyr busnesau bach o bob rhan o dde Cymru at ei gilydd. Roedd nawdd wedi darparu llwyfan gwerthfawr i arddangos cynnydd y Fargen Ddinesig, tynnu sylw at gynnydd ar draws prosiectau a rhaglenni, a hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i fusnesau bach.

Canolbwyntiodd y gynhadledd ar dwf busnes ymarferol, gan gynnwys gallu digidol, profiad cwsmeriaid, datblygu gwerthiant, a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg fel deallusrwydd artiffisial. Roedd ymgysylltu uniongyrchol yn y digwyddiad wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o fentrau y Fargen Ddinesig ac atgyfnerthu enw da cynyddol y rhanbarth fel safle cadarn i wneud busnes.

> Derbyniodd y digwyddiad adborth arbennig gyda mynychwyr yn tynnu sylw at werth ymarferol sesiynau'r siaradwyr ac ansawdd rhwydweithio trwy gydol y dydd. Roedd hefyd yn galonogol clywed ymatebion cryf i anerchiad y Cadeirydd, gydag un mynychwr yn dweud ar LinkedIn fod y neges am gynlluniau'r ddinas a buddsoddiad parhaus yn ysgogol iawn ac yn atgyfnerthu'r teimlad bod Abertawe yn lle cyffrous i fod ar hyn o bryd.
>
> **Rob Basini**
> **Rheolwr Datblygu yr FSB**



FFOCWS AR...

Datgloi buddsoddiad y sector preifat i roi hwb i Arloesi a Thwf Rhanbarthol

Mae datgloi buddsoddiad yn y sector preifat yn ganolog i uchelgais Bargen Ddinesig Bae Abertawe i gynyddu effaith cyllid cyhoeddus a chyflymu twf rhanbarthol hirdymor. Mae'r dull hwn yn cyflawni canlyniadau cryf, gyda hyder cynyddol yn y farchnad yn atgyfnerthu'r atyniad y rhanbarth fel lle i fuddsoddi.

Hyd yn hyn, mae **£233.6m** o fuddsoddiad y sector preifat wedi'i sicrhau ar draws y Portffolio. Dros oes y Portffolio, rhagwelir y bydd cyfanswm cyfraniad y sector preifat yn cyrraedd **£772.4m**,sydd gryn dipyn yn uwch na'r targed gwreiddiol o £637m. Mae'r perfformiad hwn yn dangos rôl ganolog buddsoddiad y Fargen Ddinesig yn denu buddsoddiad preifat.

Mae'r buddsoddiad cyffredinol a ragwelir yn y sector cyhoeddus a phreifat ar draws pob rhaglen wedi cynyddu o **£1.24bn** i **£1.46bn**, gan adlewyrchu graddfa ac uchelgais y Portffolio. Gyda £719.4m eisoes wedi'i fuddsoddi, mae'r momentwm cyflenwi yn parhau i gynyddu.



Rhaglenni sy'n Cyflawni Effaith

Mae sawl rhaglen flaenllaw yn ysgogi buddsoddiad gan y sector preifat ac yn sicrhau cyflawni:

- Mae **Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer** yn parhau i fod yn un o'r rhaglenni mwyaf uchelgeisiol, gyda buddsoddiad rhagamcanedig o **£505.5m**. Gyda **£184.8m** eisoes wedi'i gyflawni a **£375.9m** mewn cyfraniadau disgwyliedig gan y sector preifat, mae'r rhaglen yn arwain y ffordd o ran integreiddio ynni adnewyddadwy.
- Mae **Seilwaith Digidol** wedi gweld cynnydd sylweddol yn y buddsoddiad a ragwelir, gan godi o **£55m** i **£177.1m**. Gyda **£160.5m** eisoes wedi'i fuddsoddi a bron yr holl gyllid sector preifat a ragwelir wedi'i sicrhau (**£127.8m** hyd yma), mae'r rhaglen yn gwella cysylltedd yn gyflym ac yn cefnogi arloesedd digidol.
- Mae'r buddsoddiad **Sgiliau a Thalentau** yn parhau i dyfu o **£30m**, i fuddsoddiad a ragwelir sydd bellach yn cynyddu i **£49.4m**, gyda **£24.4m** eisoes wedi'i gyflawni. Mae cyfranogiad cryf yn y sector preifat (**£18.1m** hyd yma) yn adlewyrchu pwysigrwydd datblygu'r gweithlu wrth ategu gwytnwch economaidd.
- Mae **Ardal Forol Doc Penfro** yn agosáu at gael ei gwblhau'n llawn, gyda **£68.1m** wedi'i fuddsoddi hyd yma yn erbyn amcanestyniad o **£60.5m** ac aliniad cryf yn y sector preifat gyda **£21.9m** eisoes wedi'i sicrhau.

Adeiladu Twf yn y Dyfodol

Mae prosiectau eraill, gan gynnwys Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau, Pentre Awel, y Sefydliad Cenedlaethol dros Chwaraeon ac Iechyd, Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel, a Yr Egin, yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer twf yn y sector preifat yn y dyfodol. Er bod rhai yn parhau i fod ar gamau cychwynnol buddsoddiad preifat, disgwylir iddynt sicrhau cyllid pellach wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Gyda mwy na hanner cyfanswm y buddsoddiad a ragwelir eisoes wedi'i ymrwymo neu wedi'i gyflawni, mae'r Fargen Ddinesig yn trawsnewid seilwaith, yn cyflymu arloesedd, ac yn gosod de-orllewin Cymru fel cynnig cymhellol ar gyfer buddsoddiad gan y sector preifat.

Marchnata a Chyfathrebu

Mae amrywiaeth o weithgareddau marchnata a chyfathrebu wedi digwydd dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys:

- **201** o grybwylliadau yn y wasg leol a chenedlaethol gan gynnwys teitlau ar-lein ac argraffedig, yn rhoi sylw i bob prosiect a rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys **62** o ddatganiadau i'r wasg mewn **60** o deitlau cyfryngau gwahanol.
- **25,530** o argraffiadau mewn postiadau Facebook, **1,029** o ddilynwyr, **106** o bostiadau cyhoeddedig a **361** o gliciadau ar ddolenni.
- **6,691**o argraffiadau mewn postiadau X, **1,440** o ddilynwyr, **106** o bostiadau cyhoeddedig a **458** o gliciadau ar ddolenni.
- **15,125** o argraffiadau post LinkedIn, **1,125** o ddilynwyr, **75** o bostiadau cyhoeddedig a **207** o gliciadau ar ddolenni*.
- Ymweliadau Gweinidogol mawr eu sylw gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru â Phentre Awel a Chefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel.
- Presenoldeb cryf mewn digwyddiadau, gyda lle mewn **18** o ddigwyddiadau, gan gynnwys Sioe Fusnes Cymru a Sioe Adeiladu Cymru (Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chaerdydd), Cynhadledd Canol Dinas 4theRegion, Cynhadledd Economi Werdd 4theregion a Digwyddiad y Ffederasiwn Busnesau Bach.
- Adnewyddiad cynhwysfawr o'r wefan, gwella'r tudalennau timau prosiect, cynnwys "Cwrdd â'r tîm", y newyddion diweddaraf a'r llyfrgell adnoddau i wella hygyrchedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Diweddaru a chryfhau Cynllun Cyfathrebu a Marchnata'r Portffolio, y Cynllun Gweithredu, y protocolau, y canllawiau, a'r cynlluniwr digwyddiadau.
- Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â chysylltiadau cyfathrebu allweddol mewn sefydliadau partner ac ym Margeinion Twf a Dinesig eraill Cymru, gan gefnogi ymagwedd sy'n fwy cydlynol.

Mae'r gweithgareddau hyn wedi cryfhau gweledded a hygredded Bargen Ddinesig Bae Abertawe, wedi cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a hyder partneriaid, gan gefnogi buddsoddi, cydweithio a chyflawni tryloyw ar draws y Portffolio.

*Dim ond ym mis Gorffennaf 2025 y dechreuodd LinkedIn olrhain

FFOCWS AR...

Cyflawni Twf Rhanbarthol Trwy Seilwaith Bargen Ddinesig

Dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae'r Fargen Ddinesig wedi cyflawni rhaglen o fuddsoddiad trawsnewidiol mewn seilwaith, gyda'r bwriad o gyflymu twf economaidd, cefnogi arloesedd a denu busnesau uchel eu gwerth i'r rhanbarth. Mae **saith** prosiect adeiladu mawr bellach wedi'u cwblhau ac yn gwbl weithredol, gyda Pentre Awel a 71/72 Ffordd y Brenin wedi agor yn swyddogol ac yn croesawu tenantiaid newydd yn ystod 2025/26.

Ar draws y Portffolio, mae'r seilwaith bellach yn darparu ar gyfer **dros 50 o gwmnïau** sy'n rhychwantu'r sector creadigol, technoleg feddygol, arloesedd digidol, gweithgynhyrchu uwch, cynaliadwyedd ac iechyd.

Ymhlith y safleoedd cwbl weithredol ar draws y rhanbarth mae'r Egin yng Nghaerfyrddin; Canolfan Dechnoleg y Bae ym Mhort Talbot; Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe a'r Matrics Arloesi; a Rhandai'r Awyrendai ym Mhorthladd Penfro.

Gyda'i gilydd, mae'r asedau hyn yn ffurfio ecosystem gysylltiedig sy'n cefnogi twf busnes, datblygu sgiliau, cydweithio prifysgolion a chyfleoedd cadwyn gyflenwi ar draws Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Seilwaith sydd newydd agor gyda chyfleoedd i Denantiaid

71/72 Ffordd y Brenin Rhan o raglen Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau

Agorwyd 71/72 Ffordd y Brenin yn swyddogol ym mis Gorffennaf 2025, ac mae'n ddatblygiad swyddfeydd nodedig yng nghanol y ddinas sy'n darparu gweithle o safon uchel i fusnesau digidol a busnesau gaiff eu harwain gan dechnoleg. Mae'r lefelau meddiannaeth yn yr adeilad yn dda eisoes, ac mae'n parhau i ddenu diddordeb cwmnïau sy'n chwilio am leoliad yng nghanol Abertawe.
Mae'r tenantiaid a gadarnhawyd yn cynnwys:

- **TUI (Canolfan Gyswllt):** Canolfan gyswllt fawr un o gwmnïau teithio a thwristiaeth mwyaf blaenllaw y byd.
- **Futures First:** Darparwyr dadansoddiadau marchnad byd-eang ar draws ystod o nwyddau, ecwitïau ac ynni.
- **IWG:** Gweithle hyblyg, ardaloedd cydweithio, ystafelloedd cyfarfod a mannau cydweithredu creadigol.
- **Optical Express & Sk:n:** Gofal llygaid arbenigol, dermatoleg a thriniaethau esthetig.
- **Veeqo:** Cwmni technoleg Cymreig sy'n eiddo i Amazon sy'n darparu meddalwedd dosbarthu a rheoli stocrestrau.

Canolfan Pentre Awel

Agorwyd Canolfan Pentre Awel ym mis Hydref 2025, ac mae'n ddatblygiad blaenllaw sy'n cefnogi iechyd, llesiant ac arloesedd. Y tenant mwyaf yw Hamdden Actif, sy'n gyfrifol am y pyllau, y gampfa, y neuadd chwaraeon a'r stiwdios gweithgareddau.

Ar hyn o bryd y lefel feddiannaeth yw 55% a bydd gwaith gosod yn ystod 2026/27 yn creu mannau iechyd, ymchwil a swyddfeydd ychwanegol. Bydd hyn yn cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd cymunedol, ac yn denu busnesau o'r sectorau gwyddorau bywyd, iechyd a llesiant.



Seilwaith Allweddol sydd wedi'i Gwblhau

Yr Egin

Agorwyd ym mis Hydref 2018, wedi'i feddiannu'n llawn. Hwb creadigol a digidol wedi'i angori gan S4C, sy'n dod ag 16 o sefydliadau at ei gilydd ar draws y cyfryngau, diwylliant ac arloesedd digidol.



Canolfan Dechnoleg y Bae
Rhan o'r rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel

Agorwyd ym mis Gorffennaf 2022, ac mae lle i denantiaid ar gael ar hyn o bryd.
Canolfan ar gyfer technoleg feddygol, ynni glân, gweithgynhyrchu uwch ac arloesedd digidol, sydd bellach yn gartref i 14 o gwmnïau.



Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe
Rhan o raglen Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau

Agorwyd ym mis Mawrth 2022, wedi'i feddiannu'n llawn. Mae'r arena amlbwrpas dan do hwn, sy'n cael ei redeg gan ATG Entertainment ac sydd â chapasiti o 3,500, yn darparu adloniant o'r radd flaenaf, gan gynnwys cerddoriaeth, comedi a chynyrchiadau teithiol.



Rhandai'r Awyrendai
Rhan o brosiect Ardal Forol Doc Penfro

Agorwyd yn 2022, ac mae lle i denantiaid ar gael. Cyfleusterau swyddfa a gweithdy modern sy'n cefnogi twf mewn ynni morol, peirianneg, a diwydiannau newydd mewn porthladdoedd.

Matrics Arloesi
Rhan o raglen Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau

Agorwyd ym mis Mawrth 2025, wedi'i feddiannu'n llawn. Canolfan arloesi ar y glannau sy'n cefnogi 10 cwmni ar draws y diwydiannau technoleg feddygol, peirianneg, datrysiadau digidol a chreadigol.



At ei gilydd, mae'r portffolio seilwaith hwn yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer twf economaidd hirdymor, arloesi a chyflogaeth uchel ei gwerth ledled y rhanbarth.

FFOCWS AR...

Portffolio sydd wedi Ennill Gwobrau

Parhaodd prosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe i ragori yn ystod 2025/26, gan dderbyn cydnabyddiaeth gref gan gyrff diwydiant ar draws datblygu sgiliau, arloesi, cynaliadwyedd a'r amgylchedd adeiledig. Mae'r gwobrau hyn yn dangos cryfder ein partneriaethau, effaith ein rhaglenni, a'n hymrwymiad i gyflawni prosiectau o ansawdd da, sy'n canolbwyntio ar y dyfodol. Bu i chwe phrosiect gwahanol ennill neu gyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobrau 17 yn ystod y flwyddyn.

Sgiliau a Thalentau

Cafodd gwaith i ddatblygu gweithlu'r dyfodol gydnabyddiaeth genedlaethol sylweddol, yn enwedig drwy brosiect peilot Pŵer Cynaliadwy, Ynni Adnewyddadwy ac Adeiladu (SPARC) dan arweiniad Coleg Sir Benfro. Mae cysylltiad cryf rhwng y peilot ag anghenion y diwydiant ac mae'n cael ei ystyried mwyfwy fel esiampl o ddatblygu sgiliau cydweithredol. Roedd cyflawniadau SPARC yn cynnwys:

- **Enillydd:**
  Gwobrau Menywod mewn Busnesau Gwyrdd 2025 – Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Flwyddyn
- **Canmoliaeth Uchel:**
  Gwobrau Menywod mewn Busnesau Gwyrdd 2025 – Ymgyrch y Flwyddyn
- **Canmoliaeth Uchel:**
  Gwobrau STEM Cymru 2025 – Rhaglen Addysgol y Flwyddyn
- **Canmoliaeth Uchel:**
  Gwobrau Ynni Gwynt ar y Môr Byd-eang RenewableUK 2025 – Gwobr Sgiliau a Phobl

71/72 Ffordd y Brenin

Mae trawsnewid 71/72 Ffordd y Brenin yn parhau i ddenu sylw cenedlaethol, gan sicrhau nifer o wobrau ar gyfer dylunio, arloesi ac effaith fasnachol. Roedd yr hyn a gyflawnwyd yn cynnwys:

- **Enillydd:**
  Gwobrau De Lloegr a De Cymru y Cyngor Prydeinig ar gyfer Swyddfeydd (BCO) – Gweithle Masnachol
- **Enillydd:**
  Gwobrau De Lloegr a De Cymru y BCO – Gwobr Arloesedd
- **Ar y rhestr fer:**
  Gwobrau Eiddo Cymru 2026 - Dêl Eiddo'r Flwyddyn ar gyfer trefniadau gosod TUI yn 71/72 Ffordd y Brenin, Abertawe
- **Ar y rhestr fer:**
  Gwobrau Eiddo Cymru 2026 - Dêl Eiddo'r Flwyddyn ar gyfer caffael swyddfeydd ar gyfer Amazon UK Services
- **Ar y rhestr fer:**
  Gwobrau Eiddo Cymru 2026 Datblygiad Masnachol y Flwyddyn



Canolfan Pentre Awel

Mae Pentre Awel yn parhau i osod safonau newydd mewn datblygu cynaliadwy ac effaith gymunedol.

- **Enillydd:**
  Gwobrau Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru 2025 – Gwobr Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu
- **Enillydd:**
  Gwobrau Go Cymru 2025
  – Gwobr Rhagoriaeth mewn Gwerth Cymdeithasol
- **Ar y rhestr fer:**
  Gwobrau Eiddo Cymru 2026
  – Gwobr Cynaliadwyedd
- **Gwobr Aur:**
  Diogelu Drwy Ddylunio, dyfarnwyd gan Dîm Dylunio i Atal Trosedd Heddlu Dyfed-Powys

Seilwaith Digidol

Cyrhaeddodd Laura Jenkins, Rheolwr Cysylltiadau Cysylltedd Digidol Cyngor Sir Abertawe, rownd derfynol Gwobr Rising Star yn Connected Britain. Mae'r wobr yn cydnabod unigolion, sefydliadau a phrosiectau rhagorol sy'n llunio cysylltedd digidol a dyfodol technolegol y DU.

Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Chwaraeon ac Iechyd (NISH)

Cafodd NISH ei gydnabod yng **Ngwobrau Arloesedd MediWales** yn y categori Technoleg ac Effaith Ddigidol. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn amlygu enw da cynyddol y prosiect ar gyfer arloesedd a'i gyfraniad at wella technolegau iechyd a chwaraeon ledled Cymru.

Yr Egin

Derbyniodd Canolfan S4C Yr Egin wobr **Hyrwyddwyr Gorau'r Gymraeg yn y Gweithle** yng Ngwobrau Partneriaid Gwerthfawr Gyrfa Cymru. Mae'r wobr yn cydnabod arweinyddiaeth Yr Egin wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg, cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol ac ysbrydoli pobl ifanc i edrych ar y posibilrwydd o yrfa yn y diwydiannau creadigol.

Ardal Forol Doc Penfro

Enillodd Porthladd Aberdaugleddau, sy'n bartner cyflawni ym mhrosiect Ardal Forol Doc Penfro, **Ardystiad Lle Gwych i Weithio** ar gyfer 2025–26, sef ei drydydd achrediad o'r bron. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus i lesiant gweithwyr, diwylliant sefydliadol, a gwelliant parhaus.



Digwyddiadau

Mae mynychu ac arddangos mewn digwyddiadau yn chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo'r Fargen Ddinesig i gynulleidfaoedd ehangach. Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi creu cysylltiadau newydd, cryfhau perthnasoedd, ehangu ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi a chynyddu ymwybyddiaeth o Bortffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i ystod o weithgareddau.

Bu'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn arddangos mewn ystod eang o ddigwyddiadau trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar fusnes, adeiladu, ynni gwyrdd, myfyrwyr ac ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol. Mynychwyd digwyddiadau o fewn a thu allan i Ranbarth Bargen Ddinesig Bae Abertawe, gan gefnogi ymgysylltu ehangach a chodi proffil ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Digwyddiad	Dyddiad	Lleoliad
Sioe Fusnes Cymru	Mai 2025	Stadiwm Dinas Caerdydd, Caerdydd
Sioe Adeiladu Cymru	Mai 2025	Stadiwm Dinas Caerdydd, Caerdydd
Noson Recriwtio Coleg Gŵyr	Meh 2025	Ghampws Tŷ Coch, Abertawe
Sioe Deithiol Busnes Cymru	Meh 2025	Gwesty'r Village, Abertawe
Sioe Fusnes Cymru	Gorff 2025	Parc Y Scarlets, Llanelli
4theRegion: Eich Sir Gâr Chi	Gorff 2025	Parc Y Scarlets, Llanelli
Cynhadledd Ffederasiwn Busnesau Bach	Medi 2025	Stadiwm Swansea.com, Abertawe
Expo Busnes Cymru	Medi 2025	Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe
4theRegion: Eich Castell-nedd Port Talbot Chi	Medi 2025	Yr Orendy, Parc Margam
Sioe Fusnes Cymru	Hydref 2025	Stadiwm Swansea.com, Abertawe
Sioe Adeiladu Cymru	Hydref 2025	Stadiwm Swansea.com, Abertawe
Procurex Cymru	Tach 2025	Arena Utilita, Caerdydd
Gweithdy Blynyddol Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu	Tach 2025	Goleudy, Llanelli
Cynhadledd Flynyddol y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol	Tach 2025	Gwesty'r Village, Abertawe
4theRegion: Yr Ŵyl Syniadau	Tach 2025	Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe
4theRegion: Cynhadledd yr Economi Werdd	Tach 2025	Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe
4theRegion: Cynhadledd Eich Abertawe Chi	Maw 2026	Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe

@SBCityDeal

BDBA@sirgar.gov.uk

bargenddinesigbaeabertawe.cymru

Sicrwydd ac Archwilio

Mae portffolio, rhaglenni a phrosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn destun Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth, a hwylusir gan Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru. Mae'r adolygiadau'n rhoi sicrwydd trydydd parti ar gynnydd llwyddiannus a chyflawniad cyffredinol.

Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Gorffennaf 2025 ac mae'r adolygiad nesaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref 2026. Mae cyfarfodydd rheolaidd o Banel Sicrwydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi digwydd drwy gydol y flwyddyn, gan ddarparu goruchwyliaeth a mewnbwn i'r trefniadau sicrwydd ar draws y Portffolio.

Portffolio / Rhaglen / Prosiect	Cam	Dyddiad yr adolygiad nesaf	Graddfa AHC
Portffolio	Porth 0	Hydref 2026	
Pentre Awel	Porth 5	Ch2 2026/27	
Y Sefydliad Cenedlaethol dros Chwaraeon ac Iechyd	PAR	Ch4 2026/27	
Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer	PAR	Ch3 2026/27	
Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel	PAR	Ch1 2026/27	
Glannau Abertawe a'r Ardal Ddigidol	PAR	2027	
Seilwaith Digidol	Porth 0	2027/28	
Sgiliau a Thalentau	Porth 0	2028	
Prosiect Ardal Forol Doc Penfro	Porth 0	i'w gadarnhau	
Cyfnod 2 Yr Egin	Porth 1/2	i'w gadarnhau	

Argymhellion Adolygiad Gateway y Portffolio

Am y pedwerydd tro yn olynol, rhoddwyd sgôr Ambr/Gwyrdd yn adolygiad sicrwydd Gateway 2024/25 ar gyfer y Portffolio, a chafwyd 2 argymhelliad. Mae un wedi'i gwblhau, ac mae'r llall ar y gweill yn unol ag integreiddio Bargen Ddinesig Bae Abertawe â Chyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru (SWWCJC). Mae'r Portffolio yn gyson yn strategol o hyd â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ac yn cael cefnogaeth dda ganddynt. Wrth i amgylcheddau byd-eang, cenedlaethol a lleol barhau i esblygu, mae sawl ffactor dylanwadol wedi newid, gan roi ysgogiad ychwanegol ar gyfer cyflawni ac atgyfnerthu'r dull rheoli Portffolio.

Archwilio

Cynhaliwyd archwiliad mewnol o Fargen Ddinesig Bae Abertawe gan Gyngor Sir Penfro ar gyfer 2025/26. Canlyniad yr archwiliad oedd sgôr Gwyrdd gydag 1 argymhelliad yn ymwneud â phrosesu hawliadau grant yn amserol, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gyflawn ac yn gywir a bod hawliadau'n cael eu setlo'n iawn. Mae'r argymhelliad hwn wedi'i weithredu yn Ch1 2025/26 ac mae wedi'i gwblhau.

Ym mis Mehefin 2025, cynhaliwyd Adolygiad Asesu Risg Archwilio Cymru i asesu'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'r 16 maes datrys a nodwyd yn adroddiad Mehefin 2024. Mae naw wedi'u cwblhau ac mae saith ar y gweill, yn unol ag integreiddio Bargen Ddinesig Bae Abertawe â Chyd-bwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru. Mae'r gwaith ar y trywydd iawn o hyd o ran gweithredu'r holl gynigion erbyn diwedd blwyddyn galendr 2026.


Mae Cynllun Gweithredu ar waith sy'n adrodd ar y cynnydd yn erbyn meysydd sydd heb eu datrys i Fyrddau Llywodraethu bob chwarter. Roedd adolygiad Mehefin 2025 yn cynnwys un argymhelliad, sef ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau cynnydd i'r Cyd-bwyllgor a'r Cyd-bwyllgor Craffu ddarparu asesiad cynhwysfawr o'r cynnydd yn erbyn pob penderfyniad. Mae'r cam hwn wedi'i weithredu trwy ddarparu Cynllun Gweithredu uwch i Fyrddau Llywodraethu ym mis Mai 2025, a bydd yn parhau â chylch monitro chwarterol.

Y Portffolio - Risgiau a Phroblemau

Caiff risgiau a phroblemau ar lefel portffolio eu hadrodd i fyrddau llywodraethu bob chwarter, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu statws a chamau lliniaru.

Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd nifer y risgiau Portffolio o 15 i 14. Mae hyn yn adlewyrchu cau tri risg, trosglwyddo un broblem i'r Gofrestr Risg, a nodi un risg newydd.






Risgiau Coch	Mesurau lliniaru
Risg y bydd costau adeiladu cynyddol yn effeithio ar gyllidebau a osodwyd mewn Achosion Busnes Rhaglenni/Prosiectau	Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio'n agos gyda thimau rhaglenni a phrosiectau i nodi effeithiau posibl. Mae Asesiad Chwarterol o'r Effaith ar Adeiladu yn cael ei adrodd i fyrddau llywodraethu. Mae lliniaru allweddol ar lefel prosiect yn cynnwys: i) sicrhau cyllid ychwanegol, ii) ailedrych ar friffiau dylunio, iii) trafodaethau contractiol manwl yn ystod caffael.
Diweddariad Llywodraeth Cymru (LlC) 2021 o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 ar y risg i ddatblygiadau o lifogydd ac erydiad arfordirol	Mapiau risg llifogydd ar gyfer cynllunio wedi'u mewnosod. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiolrwydd Polisi Cynllunio Cymru a TAN 15 drwy gyfarwyddyd hysbysu a dangosyddion datblygu cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CNC i asesu cyfanrwydd amddiffynfeydd llifogydd presennol, a disgwylir y bydd yn cynghori Ysgrifennydd y Cabinet, gan gynnwys fersiwn wedi'i hailddrafftio o TAN 15.
Gallu rhaglenni a phrosiectau i gyflawni'r holl allbynnau a chanlyniadau o fewn yr achosion busnes a gymeradwywyd	Rhaglenni a phrosiectau wedi cwblhau templedi gwireddu buddion, sy'n cael eu cynnwys yn adroddiadau Llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Adolygiad Proffil Buddion wedi'i gwblhau yn Ch4 - 2025/26. Cymeradwywyd Strategaeth Buddion Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe gan y Cyd-bwyllgor ym mis Tachwedd 2025. Cyflwynwyd Dangosfwrdd Buddion yn Ch4 2025/26, sy'n categoreiddio buddion ar draws y Portffolio. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Adeiladu yn tystio bod hyder o ran cyflawni allbynnau seilwaith ffisegol ar draws y Portffolio.
Goblygiadau'r Gyfarwyddeb Nitrad Morol	Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Tasglu Datblygu Nitradau Morol, sy'n dwyn ynghyd uwch-swyddogion o Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Dŵr Cymru. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Ne-orllewin Cymru, dan arweiniad Cyngor Sir Caerfyrddin, wedi datblygu a chyhoeddi llawlyfr lliniaru i ddatblygwyr. Prosiectau yr effeithir arnynt neu mae'n debygol yr effeithir arnynt yw Pentre Awel a Chartrefi yn Orsafoedd Pŵer.

Y Portffolio - Risgiau a Phroblemau

Dros yr un cyfnod, mae nifer y problemau Portffolio wedi gostwng o wyth i saith, gydag un broblem yn cael ei throsglwyddo i'r Gofrestr Risg.





Materion Coch	Mesurau lliniaru
Costau adeiladu cynyddol ac argaeledd adnoddau	Yn 2022 datblygwyd Asesiad o'r Effaith ar Adeiladu gan Swyddfa Rheoli Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe, i effeithiau cyfredol ac effeithiau yn y dyfodol ar gyflawni prosiectau. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Adeiladu wedi'i ddiweddaru ar gyfer Ch4 2025/26, gan ganolbwyntio ar yr 17 Achos Busnes oedd yn weddill sy'n ddibynnol ar brosiectau adeiladu. Mae'r ffurflenni cyfredol yn dangos 4 Gwyrdd, 7 Ambr a 4 Coch gyda 2 i'w cadarnhau.
Amrywiant buddsoddi yn ystod y flwyddyn	Mae adolygiad o elfennau buddsoddi ac amserlenni cyflawni wedi cael ei gynnal. Mae hyn wedi arwain at ragolwg buddsoddi mwy realistig, gan gefnogi adolygu a chraffu chwarterol/blynyddol. Cafodd Papur Safbwynt amrywiant ei gyflwyno i fyrddau llywodraethu ym Mai 2025. Y buddsoddiad a ragwelir ar gyfer Ch4 yn y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2026 yw £166.9m, sy'n orfuddsoddiad blynyddol o £1.7m.
Amrywiant wrth gyflawni rhaglenni a phrosiectau yn erbyn cerrig milltir allweddol	Mae'r amrywiadau yn deillio o ystod o ffactorau, gan gynnwys effeithiau sy'n gysylltiedig â COVID, oedi o ran ceisiadau a chymeradwyo achosion busnes, a gwasgfeydd parhaus o ran adnoddau a deunyddiau. Mae buddion lefel y Portffolio bellach wedi'u rhagweld ar gyfer gweddill oes y Portffolio. Defnyddiodd Partneriaid Ch1 2025/26 i ailbroffilio gweithgarwch i leihau amrywiadau. Mae Ch4 2025/26 yn dangos amrywiant Portffolio positif o £67 miliwn, wedi'i sbarduno gan fuddsoddiad ychwanegol o £15 miliwn yn y sector cyhoeddus a buddsoddiad ychwanegol o £52 miliwn yn y sector preifat.

Gwersi a Ddysgwyd

Ers 2020 mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi cynnal Cofnod o Wersi a Ddysgwyd er mwyn rhannu arfer gorau gyda phartneriaid rhanbarthol, gan fanteisio ar y profiadau a'r wybodaeth ddefnyddiol ddaeth i'r amlwg trwy gyflawni ar draws y rhanbarth. Mae'r gwersi hyn hefyd yn cael eu rhannu â Bargeinion Dinas a Thwf eraill ledled Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Yn 2025/26 cyfrannodd rhanddeiliaid 18 o wersi a ddysgwyd, yn cwmpasu llywodraethu, adrodd, cydweithio, caffael, cyllid, rhwydweithio, cyfathrebu, adnoddau a buddion.

Croesewir bob amser anfon adborth ar berfformiad Bargen Ddinesig Bae Abertawe at: **SBCD@sirgar.gov.uk**

Pwnc / Sefyllfa	Yr Argymhellion
Cynnal 'piblinell fusnes' i gofnodi mynegiadau o ddiddordeb ar gyfer statws olrhain gofod swyddfa e.e. Penawdau Telerau, Cytundeb Prydles, gofynion gofodol a chyfleoedd ymgysylltu.	Sefydlu a chynnal cofrestr piblinell ar gyfer prydlesu gofod i gofnodi ymholiadau a chefnogi gweithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys digwyddiadau arddangos.
Oedi wrth benodi is-gontractwr neu ymgynghorydd, er gwaethaf y defnydd o fframweithiau sefydledig.	Ymgymryd ag arfarniad cadarn o fframweithiau cyn dewis llwybrau caffael a sicrhau bod yr holl ddogfennau fframwaith yn eu lle.
Cyfnodau estynedig o fân drafferthion ar ôl trosglwyddo (y tu hwnt i lwfansau cytundebol).	Cytuno a blaenoriaethu amserlen ar gyfer mân drafferthion, gan ganolbwyntio i ddechrau ar ardaloedd 'blaen tŷ'. Sicrhau bod yr holl ddiffygion yn cael eu cofnodi ar blatfform y cytunwyd arno gyda'r contractwr.
Mae integreiddio galluoedd ymchwil Prifysgol Abertawe ag amcanion economaidd rhanbarthol wedi dangos gwerth prifysgolion fel partneriaid strategol.	Gosod partneriaid Addysg Uwch fel cyfranwyr allweddol i'r system arloesi ranbarthol, gan gysylltu ymchwil a datblygu academaidd â phartneriaid masnachol a chlinigol y tu hwnt i gyflawni rhaglenni unigol (e.e. Porthladdoedd Rhydd, Hybiau Sgiliau).
Mae cydleoli â phartneriaid diwydiant yn parhau i fod yn heriol nes bod seilwaith ffisegol yn weithredol. Mae defnyddio gofod dros dro wedi profi'n effeithiol.	Cryfhau'r cynnig rhanbarthol i ddarparu ar gyfer cwmnïau trwy gysoni darpariaeth, gan ddiffinio'r cynnig gwerth yn glir, a dangos y llwybr o ddeori i fasnacheiddio.
Roedd angen llywodraethu addasol a chynllunio hirdymor oherwydd graddfa a chymhlethdod y Fargen.	Adeiladu hyblygrwydd a goruchwyliaeth gref o ran trefniadau llywodraethu ar lefel portffolio a phrosiect.
Bydd mentrau hirdymor fel y Fargen Ddinesig yn gweld cynnydd sylweddol mewn costau dros amser, y tu hwnt i ragdybiaethau cyllido cychwynnol. Roedd y gwaith effaith ar gostau adeiladu gan Swyddfa Rheoli Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn ddefnyddiol i'r graddau ei fod yn tynnu sylw at raddfa'r broblem ar draws y Portffolio, ond gadawyd i brosiectau unigol ddod o hyd i atebion.	Cadw i adrodd i fyrddau llywodraethu yn rheolaidd ar gostau, a sicrhau bod cynllunio ariannol yn cynnwys camau wrth gefn ar gyfer dylanwadau allanol megis chwyddiant, tarfu ar y gadwyn gyflenwi, a newidiadau economaidd ehangach.
I ddechrau nid oedd y Cylch Gorchwyl o ran Llywodraethu yn diffinio amcanion craidd e.e. Swyddi a Grëwyd, Buddsoddiad ac Effaith Economaidd. Sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen i bennu'r diffiniadau o Swyddi a Grëwyd, Buddsoddiad ac Effaith Economaidd ac fe'i cymeradwywyd gan bartneriaid rhanbarthol a llywodraethau.	Cytuno ar ddiffiniadau o'r cychwyn cyntaf gyda phartneriaid rhanbarthol a llywodraethau, gyda digon o hyblygrwydd i ymateb i newidiadau o ran yr hinsawdd economaidd a blaenoriaethau rhanbarthol.

I ddarganfod mwy a chwrdd â'r tîm...

Ymholiadau cyffredinol
SBCD@sirgar.gov.uk

Seilwaith Digidol
digital@swanseabaycitydeal.wales

Cartref yn Orsafoedd Pŵer
Oonagh Gavigan – O.Gavigan@npt.gov.uk

Sgiliau a Thalent
Sam Cutlan-Dillon – scutlan-dillon@sirgar.gov.uk

Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau
Lee Richards – Lee.Richards@abertawe.gov.uk

Arena Abertawe
Matt Blackhouse – mattblackhouse@atgentertainment.com

Yr Egin, Matrics Arloesi a Canolfan Arloesi
Geraint Flowers – G.Flowers@uwtsd.ac.uk

Canolfan S4C
helo@yregin.cymru

Pentre Awel
Alex Williams – alexwilliams@carmarthenshire.gov.uk

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Chwaraeon ac Iechyd
Clare Henson – c.m.henson@swansea.ac.uk

Cefnogi Arloesi a Thwf Carbon Isel
Lisa Willis – l.willis@npt.gov.uk

Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol (CRPYM)
Paul Ellsmore – Paul.Ellsmore@ore.catapult.org.uk

Ardal Profi Ynni'r Môr (APYM)
Saul Young - saul.young@marineenergywales.co.uk

Parth Arddangos Sir Benfro
Brad Davies - brad.davies@celticseapower.co.uk

Porthladd Aberdaugleddau
Matt Jones – Matt.Jones@mhpa.co.uk



@SBCityDeal

BDBA@sirgar.gov.uk

bargenddinesigbaeabertawe.cymru

Bargen Ddinesig
BAE ABERTAWE
SWANSEA BAY
City Deal